# Yr Ysgub

Rhif 441

Ebrill 2020

70c

Papur Bro Dyffrynnoedd Ceiriog, Tanat, Cain ac Efyrnwy a Thref Croesoswallt

**Mae'n amser rhyfedd. Mae'n amser pryderus. Mae pethau'n newid o ddydd i ddydd ac eto rhywsut mae popeth wedi dod i stop. Diolch am ddewrder a charedigrwydd pobl yn ein cymunedau, yn weithwyr a gwirfoddolwyr sy'n gofalu am eraill ac yn sicrhau bod bwyd, gofal ac angenrheidiau gan bawb a diolch hefyd i'r rhai sy'n gwneud eu rhan drwy wrando ac aros adre.**

**Diolch byth am dechnoleg! Diolch am allu cysylltu a chyfathrebu â'n hanwyliaid boed hynny drws nesa neu ym mhen arall y byd. Gobeithio bydd yr Ysgub yn dod ag ychydig o gysur ac o gysylltiad i chi a bod normalrwydd y newyddion yn rhoi hyder a gobaith mai fel yna fydd hi eto mewn amser.**

**Cadwch yn saff a chadwch yn siriol.**

*Tarian a Chwpan y Tîm Buddugol Dosbarth 7SE a'r Capteiniaid Catherine Digwood ac Ella Lloyd Evans*



Llanfyllin sy'n le hapus,
Llanfyllin sy'n le braf
Yn llawn o bobol annwyl iawn
Boed aeaf neu boed haf.




*Owain a Branwen a rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanfyllin*

Mae'r hen glefyd yma ymhobman; dim bwys lle rydych chi yn y byd mae o'n cael effaith ar fywydau'r trigolion. Yma rydyn ni'n cael profiadau nifer o'n hieuenctid ni sydd yn byw yn y gwahanol wledydd ac yn gweld sut maen nhw'n ymdopi a pha gamau a gymerwyd yn y gwledydd arbennig lle maen nhw'n byw i geisio delio ag o. Diolch i chi am gytuno i rannu eich profiadau a chadwch yn saff a chadwch yn siriol. Brysiwch adre.




**Profiad Owain (Griffiths, mab Roy ac Anwen Dyfnant)**

Mae Hannah a finnau wedi bod yn byw yn Leipzig yn Yr Almaen ers ychydig dros flwyddyn bellach. Dyma fi'n rhannu fy mhrofiadau o fyw yma yn ystod pandemic Covid-19.

Y peth sy'n fy mhoeni fwyaf am y firws a'i effaith eang yw'r ansicrwydd sy'n cyd-fynd â'r holl beth. Does dim modd rhagweld sut mae hyn am ein heffeithio. Fel person sy'n gweithio ar liwt ei hun mae'r ansicrwydd yma'n peri gofid, yn bennaf am ein bod ni dal yn ymgynefino â'r wlad, ei harferion a'i hiaith. Doedd darganfod gwaith ddim yn broses hawdd.

Mae'n debyg bod cynllun gan lywodraeth Yr Almaen i gynnig grant nad oes rhaid ei ad-dalu i fusnesau bach, yr hunangyflogedig a gweithwyr llawrydd. Y gobaith yw y bydd y ffurflen ar gael ar y we yn y dyddiau nesaf. Gyda lwc, bydd yr arian yn cyrraedd cyfrifon yr ymgeiswyr heb oedi, heb orfod aros misoedd cyn derbyn cymorth ariannol. Mae'r hostel sy'n cyflogi Hannah wedi gorfod cau. Lwcus bod y llywodraeth am dalu canran o'i chyflog. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos fod y llywodraeth yn ymdopi'n rhyfeddol. Ond am ba hyd? Amser a ddengys.

Mae'r strydoedd yn dawel. Nid yw'n ddistawrwydd llethol ond mae'r ddinas yn amlwg yn llai prysur. Does dim hawl bod mewn man cyhoeddus yng nghwmni mwy nag un person ar y tro, a'r unig drip o'r cartre' a ganiateir yw i'r siop, gwaith, i wneud ymarfer corff neu am awyr iach (cyn belled nad ydych yn mentro'n rhy bell). Mae'r haul allan wrth i mi ysgrifennu hwn.

Mae'r ddwy gath yn falch o'n cwmni ac mae'r fflat yn llanast llwyr dwy awr ar ôl glanhau. Uchafbwynt y dydd ydi mynd am dro. Mae'r busnes hunan ynysu yma yn un rhyfedd.



**Profiad Gwen (merch Carys ac Alwyn)**
**Sownd yn Seland Newydd**



Seland Newydd. 11,693 milltir o Gymru fach os ewn ni efo'r term Saesneg fel ma'r frân yn fflio. Er fy mod i'n teimlo gymaint pellach na 11,693 milltir i ffwrdd rwan, yn ystod pandemig rhyngwladol fel hyn, dydy'r milltiroedd yn meddwl dim byd. Mae'r feirws yma dal i'n heffeithio ni yn Seland Newydd yn union fel y mae yng Nghymru, ond ein bod ni tua wythnos tu ôl chi yn nhermau nifer o gleifion ac y radd mae'r niferoedd yna'n tyfu. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau 83 achos newydd o Covid-19 yma dros nos. Daw hynn â chyfanswm yr achosion i 451. Mae 50 o bobl wedi gwella ond mae 12 o bobl yn yr ysbyty. I fod yn onest, doeddwn i ddim yn disgwyl iddo effeithio ni yma mor gyflym.

Ar ôl clywed am y sefyllfa adre ym Mhrydain penderfynais i fwcio awyren adre i fod gyda teulu. Y lle gore i fod yn ystod amseroedd caled fel hyn meddyliais i fi fy hun. Roeddwn i ar fin fflio dydd Mawrth o Auckland trwy Melbourne a Dubai cyn cyraedd yn ôl i Fanceinion ar ddydd Mercher, Mawrth 25. Ond, y diwrnod cyn i mi fflio adre ges i alwad ffôn gan fy ffrind Katie o Bontrobert yn deud bod Awstralia wedi cau eu Meysydd Awyr i gyd. Ac felly ar ôl aros dwy awr yn aros i siarad efo rhywun ar y ffôn ynglŷn â'r mater, darganfyddais fy mod i methu fflio adre, ac yna dechreuodd yr hunllefau. Un ar y tro dechreuodd y meysydd awyr gau i gyd ac felly nid oedd unrhywle i bawb oedd mor bell fynd trwyddo i gyrraedd adre.

Fel y gallwch chi ddychmygu, er fod fy chwaer Anna yn byw yma yn Seland Newydd, ar yr adeg honno roeddwn i'n teimlo'n unig iawn mewn gwlad mor fawr. Diolch byth am ffrindiau a theulu am rhoi cymorth yn ystod yr adeg caled yma. Es i felly i aros efo fy ffrind yn Taihape, a'i theulu gorjys hi. A dyma lle ydw i ers hynny. Mae meddwl am fod adre yn teimlo'n bell iawn yn fy meddwl i ar hyn y bryd ond dwi'n trio aros yn bositif ac yn siarad bob dydd efo teulu ac yn trio rhannu'r newyddion diweddar hefo nhw hefyd.

Dwi wedi bod mewn cysylltiad hefyd gyda'r AS Craig Williams sydd yn ein cynrychioli ni ym Mhowys, ac hefyd yr embasi prydeinig. Y broblem fwyaf wela i ydy'r diffyg cyfathrebu rhwng y ddwy wlad ar hyn o bryd i ddychwelyd dinasyddion prydeinig yn ôl i Brydain. Gêm o aros ydy i mi ar y foment, sydd yn deimlad eithaf anesmwyth. Ond mae datblygiadau i ddod yn ôly sôn!

Ond wedi dweud hynny, mae'n bwysig iawn i ni gyd gymryd rhan yn y frwydr yma yn erbyn Covid-19, a gwneud be bynnag y gallwn ni i arbed lledaenu'r feirws. Mae Seland Newydd rwan ar Lefel 4 'Lockdown' sydd yn golygu bod PAWB yn gorfod aros adre ond am bobol sy'n gweithio mewn gwasanethau hanfodol, neu i gymryd drip i'r archfarchnad i brynu pethau hanfodol. Fydd hyn yn parhau am 4 wythnos o leiaf. Ac ar hynny, diolchaf i Lywodraeth Seland Newydd ac y Prif weinidog Jacinda Adern am arwain mor hamddenol ac am ymateb mor gyflym cyn i'r niferoedd dyfu'n gyflym fel y gwnaeth yn yr Eidal ac yn America. Ni fedraf fynd mlaen i'r paragraff nesaf heb sôn rwan am fy 'claim to fame', am fy mod i a Jacinda yn 'best mates' erbyn hyn ar ôl cwrdd tra'n gwylio'r cneifio ar noson olaf y 'Golden Shears' yn Masterton. Ac am ddynes glen! Yn rhoi amser i bawb ac mor frwdfrydig ei natur. A phwy a wyr- efallai fydd hi isio dod i aros ym Minafon rhyw ddydd a dod am sing song efo Ger dros hanner seidar yn y Railway

Ar nodyn mwy seriws- does neb yn siwr beth a ddaw yn y wythnosau i ddod. Ond, yr unig beth fedrwn ni ei wneud ydi aros

yn gryf ac yn bositif gydai'n gilydd, i ymarfer y cyfarwyddiadau i gyd a gawn gan y llywodraeth- ddim bwys pa wlad! Ac i gario mlaen bod yn hapus trwy ddefnyddio platfforms fel Côr-ona a facetime neu unrhywbeth arall sy'n eich gwneud chi'n hapus. Ac yn fwy pwysig nag oll- byddwch yn glen efo naill a'r llall, da chi!
Dwi methu aros i fod adre efo teulu a ffrindiau unwaith eto, a medru rhoi cwtch mawr i bawb a bwyta cinio dydd Sul rownd bwrdd fel arfer. Ond tan hynna- pen i lawr a brwydro trwyddi ydi'r nod achos dwi'n siwr pan fyddwn ni adre o'r diwedd a phan fydd y trafferth yma i gyd drosodd mi fyddwn ni i gyd yn gwerthfawrogi'r pethau bychain yn bywyd, ac yn gwerthfawrogi'r bobol yn ein bywydau lot mwy, ac yn teimlo'n ddiolchgar am gael byw gan edrych nôl ar yr amser yma fel adeg pwysig yn hanes ein byd bach ni.

Cariad mawr i chi gyd nôl yn Nghymru. Cadwch yn Saff

**Dyma ychydig o eirie am Melbourne/Awstralia – gan Lowri Jones (merch Mary a Gareth Tynrhedyn)**



Mae'r straeon i gyd yn wir. does na'm papur toilet yn Awstralia!!
Mae strydoedd prysur Melbourne yn dawel bellach, a'r beics "UberEats" a tecawê yn cadw pobl mewn 'self-isolation' rhag llwgu (heb glywed unrhyw ganu o'r balconies - eto!). Efo gymaint o ansicrwydd, pobl wedi colli eu swyddi a'r rheolau yn newid o ddydd i ddydd, dwi'n teimlo'n hynod o ffodus i hyd yn oed gael swydd a lle i fyw, i allu 'gweithio o adre' ar y funud.
Fues i'n ddigon lwcus i gwrdd ag ambell aelod o Gôr Meibion Cymreig Awstralia ar ddechrau'r mis. Roeddent yn sôn fod 4 côr Cymreig mewn ardaloedd gwahanol yn Melbourne, a ges i ambell bennill o 'Calon Lân' ganddyn nhw - wel sôn am hiraeth!
Rhwng y tannau gwyllt a rwan y coronavirus - amseru da i dewis teithio 'down under'!

**Profiad Non (merch Geraint ac Eleri Llysawel yn Santiago Chile)**

Yn amlwg mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn od i bawb ar draws y byd. Yma yn Santiago, Chile, dydi hi ddim gwahanol a mae'r ddinas wedi dod i stop. Dechreuon ni gyda 'social distancing' ryw bythefnos yn ôl, a chafodd yr ysgolion i gyd eu cau yn gynnar iawn ar ôl clywed bod achosion o'r feirws wedi cyrraedd ac yn codi bob dydd. I fi fel athrawes, mae hi wedi bod yn gyfnod gyda llawer o newidiadau wrth barhau gyda'r dysgu ar-lein, ond mae hi wedi bod yn drawsnewidiad llwyddianus ac rydw i'n dysgu llawer o sgiliau technolegol newydd!
Rydw i'n hapus hefyd fy mod yn cael amser i wneud llawer o yoga, gwella ar fy Sbaeneg ac ymarfer ar y piano! Yn ogystal rydw i wedi bod yn chwarae gemau ar-lein, fel sgrabl a chwis dros y we gyda ffrindiau a theulu o adre ac yma yn Santiago. Mae wir yn neis cael cysylltiadau cyson gyda phawb a dwi'n meddwl ei fod yn dod â phobl yn agosach at ei gilydd, gyda phawb yn gwerthfawrogi ei gilydd.



Er bod y nifer wedi codi'n sylweddol erbyn hyn, yn lwcus mae nifer y marwolaethau yn isel iawn. Ar yr 18fed o Fawrth, cyflwynwyd cyrffiw rhwng 10 y nos a 5 y bore, sy'n golygu nad oes neb yn cael gadael eu tai rhwng yr oriau yma. Yn ddiddorol iawn, mae ambell i biwma (cath fawr o fynyddoedd yr Andes) wedi gwneud eu ffordd i'r ddinas a chrwydro'r strydoedd, sydd yn ôl arbenigwyr yn ganlyniad i'r diffyg bobl a symud yn ystod y nos.
A rwan, ers dydd Iau (26ain o Fawrth) mae quarantine llwyr yn fy ardal i sy'n golygu nad oes neb yn cael mynd allan o gwbl, dim ond gyda chaniatâd blaenorol i fynd i nôl bwyd neu i fynd at y meddyg. Mae'r strydoedd yn hollol wag, gyda dim ond beiciau 'delivery' a cheir yr Heddlu yn symud o gwmpas. Yn ogystal, mae'r llywodraeth wedi symud y pythefnos o wyliau ysgol o fis Mehefin/Gorffennaf i fis Ebrill, sydd yn benderfyniad eitha annheg ar blant ac athrawon! Ond y cwbl allwn ni wneud ydi aros, dilyn y rheolau a chadw'n bositif, gan obeithio aiff popeth yn ôl i ryw fath o normalrwydd yn fuan.
Cadwch yn saff! ☺

**Dyma Anna (chwaer Gwen, merch Carys ac Alwyn Minafon) sydd yn Seland Newydd hefyd.**



Tydw i 'rioed 'di teimlo cyn belled o adre a dwi ar yr eiliad hon! Mae o fel petai'r Byd wedi mynd dipyn bach yn llai – ond eto 'dwi mewn cysylltiad efo llawer mwy o ffrindie a theulu, diolch i'r we!

Aeth Seland Newydd i fewn i "lock-down" dydd Mercher dwetha' – ac ma'r llywodraeth wedi bod yn hynod o glir efo be den ni angen ei wneud yn ystod y mis nesa' (o leia'). Mae Jacinda Ardern yn ffantastic, yn cysuro a thawelu'r meddwl cryn dipyn, tra'n annog y Kiwi's i aros adre trwy negesuo cryf, fel : "Stay at home, you will save lives", "New Zealand is depending on you" a hefyd "Act as if you have Covid-19" – sy'n syml ond yn hynod o effeithiol yn fy marn i!

Ar hyn o bryd, mae pobl yn gwrando. Es i i redeg neithiwr, ac er ei fod o fel "Ghost town", oedd y pobl nes i weld mor gyfeillgar a phawb yn gweiddi helo, neu ddeud diolch os oedd rhaid rhedeg i ochr arall y ffordd. Efallai, achos ein bod ni oll yn cal ein gorfodi i fod ar wahân, ma'n dod a ni'n agos at ein gilydd mewn ffordd arall? Ma'r teimlad ein bod ni gyd yn mynd trwy'r adeg anodd yma efo'n gilydd yn amlwg yn fama. Does dim gymaint o bobl yn gor-brynu a ma'r *rhan fwyaf* o bobl yn aros adre (ar hyn o bryd!)

Ma'n rhaid i bawb aros yn y "Swigen" adre ("Stay in your own bubble"), sef y bobl sy'n eich tŷ – felly i ni – Aaron a finne, Ali a Harry (Mam a thad Aaron), a fy modryb Glen! Y brif sialens i ni ar hyn o bryd ydi trio dal awyren i Glen yn ôl adre i Benybontfawr, ar ôl i'r ddwy ddiwethaf gael eu canslo! Mae fy chwaer Gwen hefyd yn Taihape ar hyn o bryd, yn edrych ar y we pob dydd i weld os oes cyfle i hedfan adre – heb lwc hyd yn hyn!

Un o'r pethau sy'n dod â thipyn bach o gysur i fi ar hyn o bryd ydi'r ffaith ein bod ni, ledled y Byd, yn mynd trwy'r adeg eithriadol o anarferol a phryderus yma efo'n gilydd. Dwi'n meddwl am bawb adre pob dydd, ond fel mae mam yn deud, "Waeth i ti fod yn Seland Newydd ddim, achos "facetimio" fyddi di adre beth bynnag!" Mae'r holl brofiad hyd yn hyn yn fy ngwneud i mor ddiolchgar am fy nheulu, ffrindie, a'r pethe syml mewn bywyd. Fydd y Byd yn lle chydig yn wahanol yr ochr arall o hwn dwi'n siwr.

I bawb adre – cymerwch ofal, byddwch yn glen, ac unwaith fydd yr hen Gorona o 'ma fyddai adre mewn chwip, am gwtsh mawr a pheint mewn cwmni da! Cariad mawr, Anna

**<u>Dyma hanes Aled Henlle (mab Lyn a Dei)</u>**
**<u>Coronafirws yn Seland Newydd</u>**



Bu'n hwyrach yn cyrraedd yma na llawer o wledydd eraill a hyd y dyddiau diwethaf yma roedd pob achos wedi dod o dramor, naill ai gyda thramorwyr neu gyda Kiwis yn dod adref o dramor. Rydym wedi teimlo effeithiau'r afiechyd yma ers mis Ionawr, pan gaewyd porthladdoedd China. Aeth prisiau cig o fod yr uchaf erioed i beidio â gallu gwerthu anifeiliaid gan fod y 'cold stores' yn llawn, a doedd dim lle i storio cig. Aeth prisiau coed a gwlân i'r un cyfeiriad, gan nad oedd China yn prynu. Aeth sawl cwmni coedwigaeth i drafferthion ariannol gan gau tan i bethau wella. Gwelwyd yr un cwymp yng ngwerth cynnyrch llaeth ar yr awctiwn GDT, er na chafodd yr un effaith ar bris llaeth i'r ffermwr hyd yma, gyda Fonterra (y cwmni sy'n prynu'r rhan fwyaf o laeth yma) yn dal i ddisgwyl talu rhwng $7 a $7.60 (tua £3.50) y kg milk solids.

O ran Coronafirws yn lledu dros y wlad, fe weithredodd y Llywodraeth yn weddol gyflym i geisio atal y clwyf rhag lledaenu. Fe roddwyd gorchymyn i deithwyr o dramor fynd i gwarantîn gwirfoddol am 14 diwrnod ar ôl cyrraedd Seland Newydd ond pan ddaeth hi'n amlwg nad oedd pobl yn gwrando, fe aeth yn orfodol ar yr 16eg o fis Mawrth. Fe anfonwyd ambell un adref, nad oedd yn dilyn y rheolau a rhoddodd ambell Kiwi wybodaeth i'r awdurdodau am bobl nad oedd yn ufuddhau, e.e. aeth un peilot ar rewlif Franz Joseph â dau dwrist o Hong Kong yn syth ar yr heddlu yn ei hofrennydd wedi iddo glywed eu bod ond yn y wlad ers tridiau, ac heb hunan ynysu.

Caewyd y ffin i bawb ond Kiwis ar y 20fed o Fawrth.

Daeth gorchymyn gan y Llywodraeth ar ddechrau'r wythnos hon fod y wlad yn mynd i 'lockdown' ar y 25ain o Fawrth am bedair wythnos. Daeth hyn ar ôl i nifer yr achosion gyrraedd tua 200, heb ddim un marwolaeth hyd yma, felly ychydig yng nghynt na nifer o wledydd eraill. Rhaid cofio bod poblogaeth y wlad yn weddol fychan ac ar wasgar o gymharu â gwledydd eraill ond, gydag achosion yn fwy neu lai pob ardal, rhaid oedd cymryd y cam nesaf i geisio atal lledaenu'r firws.

Mae bod o dan 'lockdown' yn golygu bod pawb yn y tŷ mewn 'bubble' a does neb yn cael gadael eu 'bubble' i gyfarfod 'bubble' rhywun arall. Mae ysgolion wedi cau, y rhan fwyaf o fusnesau wedi cau, a dim ond archfarchnadoedd a busnesau angenrheidiol (llawer mwy cyfyngedig na'r DU) sydd yn cael bod ar agor. Mae'r heddlu yn stopio pobl ar y ffyrdd i wirio i ble maen nhw'n mynd ac mae'n rhaid i weithwyr fferm gael llythyr gan eu bos i esbonio pam eu bod ar y ffordd.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno pecyn sylweddol iawn i geisio cadw cyflog gweithwyr ac i helpu busnesau dros ba bynnag gyfnod y bydd y firws yn effeithio ar fywyd arferol yn y wlad. Mae ffermwyr yn gorfod bod â chynllun i gadw pobl ar wahân os oes mwy nag un person yn gweithio ar y fferm, gan lanhâu offer ar ôl eu cyffwrdd a chadw pobl i ffwrdd o'r ffarm, heblaw am y tancer llaeth. Cawsom becyn gwybodaeth gan 'Federated Farmers of New Zealand' gyda chyngor ynglŷn â sut i weithredu'r rheolau. Ynddo, maen nhw'n pwysleisio bod y diwydiant amaeth yn freintiedig iawn yn cael parhau i weithio'n eithaf arferol ac mae dyletswydd arnom i weithredu'n gyfrifol.

Ar ben y problemau â'r firws, mae'r sychder difrifol ar Ynys y Gogledd yr haf yma yn golygu ei bod yn anodd iawn cael gafael ar fwyd ychwanegol i'r anifeiliaid. Yn ogystal â hyn, mae'r lladd-dai yn lladd llai o anifeiliaid oherwydd coronafirws, a'r ddwy sefyllfa yn arwain at broblemau mawr i'r diwydiant amaeth os na ddaw glaw sylweddol yn fuan.

Eironi mawr hyn ydi fod Llywodraeth Lafur a Gwyrdd Seland Newydd wedi treulio tair blynedd yn lladd ar amaethyddiaeth yn ofnadwy gan gyflwyno polisïau newydd yn ymwneud â safon dŵr mewn afonydd a rheolau amgylcheddol ychwanegol, ymhlith eraill, a dyma'r unig wlad yn y byd i ystyried cynnwys amaeth yn yr ETS (Emmissions Trading Scheme), a hynny yn erbyn arweiniad yr UN. Gan fod Coronafirws wedi golygu stop llwyr ar dwristiaeth (sydd yn gydradd gydag allforion llaeth ar frig economi SN) a diwydiannau eraill y wlad ar stop hefyd, mae'n golygu fod y wlad yn gwbwl ddibynnol ar allforion amaethyddol i gynnal yr economi. Eironig iawn!



Mae cysur mewn canu a cherddoriaeth



# Côr Penybontfawr

Dyma lun gefais gan Phill Ellis o Gôr Meibion Penybontfawr yn canu yn Arfarchnad Morrisons yn Wrecsam ar 29ain o Chwefror 2020 i gynorthwyo hefo gwerthu bwydydd o Gymru – diwrnod o flaen Dydd Gŵyl Dewi. Wrth ganu “Calon Lan “ gwelwyd bod un o’r gynulleidfa yn mwynhau y côr yn canu cymaint ei fod mewn dagrau o hapusrwydd. Deallwyd gan un o aelodau’r côr bod y brodor o Wrecsam yn perthyn i’r dyn a oedd yn gyfrifol am gyfansoddi`r emyn enwog i ni. Ddim yn sicr os y dôn neu y geiriau - ond stori fach hyfryd.
*Adroddiad Alwyn Williams*




# Bwlch-y-cibau

## Pam Morris

**NSPCC**
Cynhaliodd cangen NSPCC Llanfyllin a Bwlchycibau noson ‘Pwnsh a Phonca’ yn yr Hen Ysgol ar Ddydd Mawrh Ynyd. Bu aelodau wrthi’n gweini ponca ac roedd yna tombola a raffl. Codwyd £185 i’r gronfa a diolchodd Pam Morris, y cadeirydd, i bawb am eu cefnogaeth.

**YR EGLWYS**
Cynhaliwyd cyfarfod gweddi gyda thema Gymreig fore Dydd Gŵyl Dewi gyda Lynn Ash yn cyflwyno myfyrdodau am fywyd a chredoau Dewi Sant. Eleri Brautigam arweiniodd mewn gweddi a chyflwynodd Glenys Lloyd ddarlleniad.

Y GYMDEITHAS HAMDDEN
Tynnwyd tocynnau mis Mawrth yn nhafarn y Stumble. Yr enillwyr oedd: £25 – David Ward, Meifod; £20 – Dennis Williams, Bwlchycibau; £15 – Anthony Hartland d/o Bryngwyn; £10 – Henry Ropner d/o Bryngwyn.

**SEFYDLIAD Y MERCHED**
Croesawyd aelodau o Lanfyllin, Llanfechain, Llwydiarth a Llangynog i gyfarfod mis Mawrth, lle bu Alison Ussery yn sôn am gaethwasiaeth fodern. Mae Alison yn gweithio rhan amser i ddeoniaeth Llanelwy ac yn teithio’r byd wrth fynd i gynadleddau a chyfarfodydd sy’n dwyn sylw at yr erchylltra cynyddol hwn. Soniodd am y gwahanol fathau, gan nodi enghreifftiau, cyn amlinellu yr hyn sy’n cael ei gyflawni wrth geisio gwella’r sefyllfa. Diolchodd Hilary Jones iddi am sgwrs addysgiadol iawn.

Ar y bore Sadwrn canlynol, daeth aelodau ynghyd yn yr Hen Ysgol i fwynhau coffi a chacen cyn plannu coeden yn y borfa ger y maes parcio. Bydd y goeden hon yn coffháu penblwydd Sefydliad y Merched Ffederasiwn Powys ac mae plac wedi’i archebu i nodi’r achlysur arbennig.



*Aelodau yn gwylio’r plannu*



**CYHOEDDIAD PWYSIG AM EISTEDDFOD POWYS RHOS 2020. GOHIRIO OHERWYDD Y CORONAFIRWS.**

Dyma ddatganiad yn ganolog gan Edwin Hughes ac Eisteddfod Powys: "Annwyl Gyfeillion. Erbyn hyn rwyf yn gallu cadarnhau mai'r penderfyniad unfrydol a therfynol yw ein bod yn gohirio Eisteddfod Rhosllannerchrugog 2020 tan Fis Gorffennaf 2021. Golyga hynny y bydd Eisteddfod Edeyrnion a Phenllyn 2021 yn cael ei gohirio tan Fis Hydref 2022. Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich sylwadau a'ch cydweithrediad". O safbwynt y Testunau byddant yn aros yr un fath, ac mae dal modd i chi yrru llenyddiaeth i mewn rhwng rwan a Mai 2021 i'r un cyfeiriadau. Mae un newid i gystadleuaeth yn yr Adran Lefaru i gysoni efo'r holl lefaru unigol arall. Cystadleuaeth 28. Blwyddyn 5 a 6 gellir llefaru un o gerddi Gwynne Williams neu hunan-ddewisiad.

Diolch.

# Penygarnedd

## Olwen Jones

Maddeuwch i mi ( Olwen)! Nid ydywf wedi anfon newyddion o'r ardal ers tro.
Mae llawer ohonom wedi colli teulu a ffrindiau annwyl dros y misoedd.
Mae Gwyn a finnau wedi bod yn paratoi i fynd dramor at y teulu yn Awstralia a Seland Newydd ond yn anffodus bydd rhaid gohirio oherwydd y feirws sydd wedi newid y byd am rwan. Pob lwc i bawb a gobeithio y cawn ei guro yn fuan. Cadwch yn iach i gyd.

# Cymdu

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Gwynne Roberts, Tŷ mawr a fu farw yn 85 mlwydd oed a hynny ar ôl gwaeledd byr ar y 10fed o Chwefror.
Roedd wedi ei eni a'i fagu ac wedi ffermio yn Tŷ mawr ar hyd ei oes. Yr oedd yn aelod ffyddlon ac yn flaenor yng Nghapel Moriah Cymdu. Roedd wedi mwynhau bywyd cefn gwlad gan ffermio tir ei gartref ar hyd ei oes.
Roedd wedi bod yn briod ag Ethel ei ddiweddar wraig. Mae yn gadael ei blant Phillip a Cathryn ac yn dad yng nghyfraith i Lynn a John.
Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanarmon Mynydd Mawr ar Fawrth 5ed gyda gwasanaeth Coffa yng Nghapel Seion Llanrhaeadr, y Parch Gwyndaf Richards oedd yn gweinyddu gyda chymorth Parch G O Jones a'r Parch Andrew Evans. Yr organyddes oedd Mrs Lynda Thomas a Mr Tom Morris yn arwain y gân.

# Colofn Calum

**Dim chwaraeon** felly beth am gwis bach.

1. Pa dîm enillodd y twrnamaint diwethaf yn y Pum Gwlad, cyn iddo newid i ddod yn Chwe Gwlad?
2. Beth yw'r amser hiraf a ganiateir i chwilio am bêl goll mewn golff?
3. Pa bum Cymro a enillodd Cwpan Ewropeaidd UEFA neu Gynghrair y Pencampwyr?
4. O ba aderyn y mae'r gwenoliaid badminton gorau yn cael eu gwneud?
5. Pwy yw'r unig ddyn i fod wedi chwarae a rheoli 2 glwb gwahanol yn Uwch Gynghrair Lloegr?

ATEBION

1. Yr Alban 2. 3 munud 3. Gareth Bale, Joey Jones, Ryan Giggs, Ian Rush, Ben Woodburn 4. gŵydd 5. Mark Hughes (Blackburn a Southampton)

# Llanwddyn

## Janet Roberts

Prin iawn yw'r newyddion o Lanwddyn, fel pob man arall dwi'n tybio...☹
**Llongyfarchiadau a Phenblwydd Hapus** iawn i Siwan Maesdyfnant sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed a phasio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Gobeithio iti fwynhau y dathlu a chadwa'n saff ar y ffordd.Clywed bod angen llongyfarch ein gohebydd Janet hefyd sydd wedi cael swydd newydd fel Rheolwr Busnes i Gylch Caereinion. Llongyfarchiadau Jan.

# Glyn Ceiriog

## Graham Edwrads

Cinio Dydd Gwyl Ddewi Meibion Ceiriog
Cynhaliwyd Cinio Dydd Gwyl Ddewi Meibion Ceiriog yng Ngwesty'r Glyn Valley ar ddechrau mis Mawrth a chafwyd noson bleserus o fwyd da (tri chwrs) a chyflwyniad difyr iawn gan yr hanesydd lleol, Robert Jones. Bu Robert yn dewis a dethol lluniau o'i gasgliad helaeth o 'r oes a fu yn y dyffryn ar gyfer ei gyflwyniad ac hyfryd oedd gweld rhai o'r gynnulleidfa, fel plant, mewn rhai o'r lluniau. Roedd yn syndod gweld gymaint oedd rhai pethau wedi newid yn nhreigl amser. Diolchwyd i Robert gan Lywydd y Meibion, Tegid Davies, nid yn unig am ei waith wrth baratoi at y noson ond dros flynyddoedd lawer yn hel cymaint o hen luniau sydd yn adrodd hanes y dyffryn mewn ffordd arbennig.
Diolch yn fawr iawn i Emyr Davies am drefnu'r cinio ac i Tegid Davies a Roger Bates am drefnu'r raffl. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r merched am ymuno â ni i ddathlu gwyl arbennig ein nawddsant. Yn amlwg, dan yr amgylchiadau dyrys, mae'n amhosibl gwybod pryd fydd y Meibion yn cael cwrdd eto ond dymunwn yn dda i bawb dros y cyfnod anodd sydd o'n blaen ni.



*(Bwrdd y Daviesiaid) : Tegid Davies, Sarah Davies, Siwan Davies, Carys Davies a Gafyn Davies.*



*Lluniau gan Gareth Everett Roberts.
Iorwerth Jones, Aneuryn Davies, Beti Davies, Wyn Jones, Richard Jones, Eurwen Salisbury a Vaughan Salisbury
( chwith i'r dde )*

# Croesoswallt

## Hefin Jones

**Cymdeithas Ddiwylliadol**

Buom yn dathlu Gŵyl Dewi, gydag aelodau Merched y Wawr yn ymuno efo ni, yn Horeb ar Fawrth 2il dan lywyddiaeth Dewi Lloyd a estynnodd groeso cynnes i bawb yno. Mwynhawyd swper blasus wedi ei baratoi a'i weini gan Kim Martin a Mary Morgan. Yn anffodus roedd Howard Martin wedi ei gymeryd i'r ysbyty yn sydyn y diwrnod cynt ond mae o adref ac yn gwella erbyn hyn.

Rhoddywd croeso cynnes iawn i Bryn a Cadi a ddaeth i'n diddanu. Bu Cadi'n chwarae'r delyn a'i thad yn rhoi ychydig o gefndir yr alwaon. Yn anffodus ni chawsom y pleser o weld Cadi'n clocsio oherwydd bod carped ar y llawr. Mae hi yn ferch ddawnus tu hwnt ac rydyn ni mor lwcus o'i chael hi'n byw yn ein hardal. Rhoddwyd y diolchiadau gan Dewi Lloyd am noson hapus efo'n gilydd.

Gofynnodd Bryn i mi sawl un yno oedd wedi ei eni yn y dre ac roeddwn yn meddwl mai 3 efallai. Roedd hyn yn f'atgoffa am ddathliadau Gŵyl Dewi yn Seion pan roedd y diweddar Stanley Evans yn ysgrifennydd. Byddai tua 80 o bobl yno ac roedd hi'n arferiad i enwi siroedd Cymru (yr hen siroedd) ac hefyd Lerpwl a Manceinion. Wrth enwi pob sir yn ei thro roedd rhywun oedd wedi'i eni yno yn sefyll a byddai rhywun yno o bob sir yng Nghymru a Lerpwl a Manceinion.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarciadau i Howrard Martin ar gael ei anrhydeddu gan Glwb Pêl-droed Everton. Bu Howard yn gefnogwr brwd i Everton ar hyd ei fywyd ac mae wedi neud barbaciw yn ei ardd am y 10 mlynedd diwethaf i godi arian i elusennau Everton (Everton Charities) ac un o'r rhai mwyaf ohonynt ydy Alder Hey. Mae o wedi llwyddo i godi £14,000 dros y 10 mlynedd diwethaf yma a chafodd ei anrhydeddu yn ddiweddar gyda Thystysgrif mewn ffram i ddangos eu gwerthfawrogiad o'i holl waith.

**Penblwydd Hapus**

Llongyfarchiadau cynnes i Moira Rowlands-Goodger, Nant-y-caws a rei henblwydd yn 95 mlwydd oed. Roedd hi'n athrawes ac rwyn sicr fod rhai o ddarllenwyr yr Ysgub wedi cael eu dysgu ganddi. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi

Llongyfarchiadau i Mair Beech Davies hefyd ar gael ei phenblwydd yn 90 oed ddechrau mis Mawrth, gyda dymuniadau gorau iddi.



**Merched y Wawr Croesoswallt**

Cyfarfu yr aelodau ar bnawn 6ed o Chwefror gyda 12 yn bresennol. Cydymdeimlwyd a Brenda oedd wedi colli ei nith. Trafodwyd busnes sirol a Gwyl Ddewi.

Yna croesawyd Aubrey Davies i roi cwis i ni, a chafwyd amryw o gwestiynau dyrys. Diolchwyd iddo gan ein llywydd Hefin Jones. Enillwyd y raffl gan Dilys Jones a paratowyd paned gan Beryl a Hefin.

Wrth fynd i'r wasg clywais fod ein trysorydd Beryl Powel wedi cwympo a thorri ei chlun ac yn yr ysbyty. Brysiwch wella Beryl!

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

## Y Barcut Coch



Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan. Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn. Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw'n bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn. Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain! Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau. Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn. Mae rhai o'n hadar ni wedi cael eu hallforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.
Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camer - mwynhewch gyda'ch llygaid!

Rob Evans

# Llanarmon

Llongyfarchiadau i Linda Mathews, Y Tŵr Llanarmon am ennill efo'i chi mewn cystadleuaeth yn ddiweddar yn Crufts.

Brysia wella, i Emyr Owen ar ôl triniaeth i'w beneglinìau yn ddiweddar. Mi fydd yna lawer o waith trin ŵyn yn Sarphle pan fyddi di di gwella Em!

**Cwis**
Ar yr 28ain o Chwefror daeth Cwis Feistr Ifan Richards a'i nith Elin i roi noson o bendroni i drigolion lleol yn y neuadd. Codwyd swm sylweddol at gynnal y neuadd.



*Ifan ac Elin*

**Tywydd**
Cofnodir y tywydd yn ddyddiol gan Hefin a Geraint Edwards, y gwynt, glaw ar tymheredd. Cafwyd mesur o 14 modfedd neu 362 mm o law yn Llanarmon yn mis Chwefror yn unig. Mae 4 safle mesur glaw gan Geraint ac fe gofnodwyd 17 modfedd (439 mm) yn top allt cefn.
Hwn yw'r Chwefror glypaf ar record ers Chwefror 2002 lle roedd 10.4 modfedd. Ond y record mwyaf o law ers 1956 oedd Rhagfyr 1993, lle cofnodwyd 15 modfedd.
O'r holl law gawsom ni nid oedd yn aros yn hir yn Llanarmon. Ond petai y glaw yna yn eira bydde tua 12 troedfedd o ddyfnder! Felly ychydig iawn o ddifrod oedd yma i gymharu ag ardaloedd is.




*Bont Llanarmon yn edrych fyny y dyffryn.*



*Geraint Edwards*

# Pontfadog

## Mair Jones

Trist yw cofnodi fod Elfed Evans Maes Meredydd Pontfadog wedi marw ar ôl salwch hir. Yn anffodus, oherwydd yr amgylchiadau presennol, ni fu'n bosib cynnal Gwasanaeth yn yr Eglwys. Felly cynhaliwyd gwasanaeth yn yr Amlosgfa. Cydymdeimlir â'i weddw Pat a'r teulu yn eu profedigaeth. Dymunwn adferiad iechyd i Pat hefyd wedi iddi dderbyn triniaeth yn ddiweddar.

**Eglwys Unedig Seion Glyn Ceiriog**
Bore Sul Mawrth 1af cafwyd Gwasanaeth arbennig i ddathlu Dydd Gwyl Dewi. Bu plant yr Ysgol Sul yn gwrando ar hanes ein Nawdd Sant ar Pwerbwynt. Richard Jones Glyn Ceiriog arweiniodd gweddill y gwasanaeth . Aeth y plant i'r Festri i wneud crefftau Cymraeg.

Mi fydd yn chwith peidio â chyfarfod am beth amser ond edrychwn ymlaen at weld ein gilydd pan fydd yn ddiogel i wneud**.** Anfonwn ein cofion at Gwilym Jones Tŷ Mawr Pontfadog sydd wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar gan obeithio y bydd o gwmpas yn ffermio eto cyn hir.



# CERDDI CODI CALON

Mae'r byd di  mynd yn wallgo.
Does dim newyddion da.
Dyfodol llawn ansicrwydd
A'r aflwydd nawr yn bla.

Mewn byd sy'n llawn unigrwydd,
'Ynysu' yw y gri.
Rhaid gochel rhag cymysgu-
Ond codwch ffôn da chi!

Mewn byd llawn hunanoldeb
A silffoedd gweigion, glân.
Rhaid tynnu at ein gilydd
Wrth gadw ar wahân.

A rhaid yw dal i gredu -
Er gwaetha'r storom fawr.
Gofalwn am ein gilydd
Cyn hir fe ddaw y wawr.

*Gan Eli n Angharad*

**COVID -19**

Cyngor ein gwlad yw ynysu,

I warchod teuluoedd di-ri.

A phallu'r holl gymdeithasau,

Mae heddiw'n ein dwylo ni.

Nid jôc yw hyn, ond 'pandemig',

Dyfodol ein pobl, ein byd,

Gweithiwn fel un tim brwdfrydig

Nes fod Covid-19 yn fud.

Gall brofi yn amser go unig,

Wrth edrych ar wyneb, drwy lun.

Ond cofia di hyn, mae'n bwysig –

Nid wyt ti ar 'ben dy hun.

Digwyddiad du y nein hanes,

Er hyn, gyda gobaith a ffydd

Rhaid ymladd y frwydr anghynnes,

'Ddown drwyddi yn gryfach, rhyw ddydd.

*Hanna Gwyn Williams*

**Un Byd**

(Cân i Non)
Yr un lleuad sy'n g'leuo ein nosau,
Yr un haul sy'n cynhesu ein byd,
Yr un sêr sy'n disgleririo'n y t'wllwch,
Yr un aer sy'n chwyrlïo o hyd.

Cytgan
Un byd, un bydysawd, un bobl
Un ydym, un teulu ynghyd;
Â chariad, a chyswllt a chanu,
Daw harmoni eto i'n byd.

Yr un gofid sy'n llenwi'n calonnau,
Yr un cariad sy'n ein gneud ni yn llon,
Yr un gobaith sy'n g'leuo'r dyfodol,
Yr un gân sy'n sirioli ein bron.

Does dim ots beth yw'ch lliw, hil neu oedran,
Does dim ots beth yw'ch statws 'n y byd,
Does dim ots os ydych gyfoethog neu dlawd
Lliwiau'r enfys a'n unir ynghyd.

Ar wahân gyda'n gilydd fe safwn,
Ar wahân gyda'n gilydd yw'r nod;
Ar wahân gyda'n gilydd yn gryfach,
Fel hyn sydd yn rhaid i ni fod.
*Eleri Llwyd*




Cyfnod anodd ddaw ar brydiau,

Cyfnod anodd, llawn o heriau,

Pawb â'i farn yng ngwydd ansicrwydd

Chwalu'n trefn wna'r clefyd newydd,

Yn ein panig, yn ein gofid,

Cân aderyn pur y Gwanwyn a'i ieuenctid

Ddaw i'n llonni. Wrth bendroni,

Gad dy ofnau a daw'r nodau i'th fodloni.

*Gwenan Gibbard*

**Swyddogion *Yr Ysgub***
**Cadeirydd:** Eleri Llwyd Jones, Llysawel, Llwyn-y-garth, Llanfyllin, Powys SY22 5JZ.
Ffôn:  01691 648725.
**Ysgrifennydd:** Alwenna Evans, Y Dderwen, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Llanfyllin, Powys SY22 5HZ.  Ffôn: 01691 648787.
E-bost: alwennaevans@yahoo.co.uk
**Trysorydd:** Goronwy Jones, Bwlchydonge, Cefn Canol, Croesoswallt SY10 7JG.
Ffôn: 01691 652067.
**Swyddog Tanysgrifiadau:** Ann Ellis, Cil y Coed, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Llanfyllin, SY22 5HY.
Ffôn: 01691 648588.
**Swyddog Hysbysebion:** Carys Evans, Cefn-y-Braich, Llansilin, Croesoswallt SY10 7QQ.
Ffôn: 01691 791240.
**Swyddog Cyswllt BYIG:** Lowri Roberts, d/o Siop Cwlwm, Neuadd Farchnad Powis, Pen Beili, Croesoswallt, SY11 1PZ.
**Teipyddes a Chysodwraig Dros Dro:** Eleri Llwyd Jones, Llysawel, Llanfyllin, Powys SY22 5JZ



**Arhoswch adre a chadwch yn saff.**

**Darllenwch yr Ysgub**

# Llanfihangel - yng - Ngwynfa

Ann Gwyn

Cynghrair Dartiau a Dominos, Dyffryn Efyrnwy
Llongyfarchiadau i chwaraewyr dartiau a dominos Y Goat ar eu llwyddiant yn y gynghrair hon eto eleni.

Tîm A y Goat oedd pencampwyr y dartiau. Trystan Evans oedd chwaraewr gorau'r gynghrair, gyda Rich Evans yn ail iddo (a wyddoch chi be – mae Janet, mam Rich, ei dad, Gwyn, a'i ddau frawd, Alwyn a Huw ar y teledu RWAN wrth imi sgwennu hwn!!!! Ydynt wir – ar raglen Countryfile ar y BBC, a phob un ohonynt yn ardderchog, fel arfer).

Yn ôl at y gynghrair – Trystan a Rich oedd pencampwyr y dartiau i ddyblau hefyd a Wil Jones, o Dîm B y Goat, oedd enillydd y gystadleuaeth i'r dartwyr unigol, yn curo Trystan Evans yn y gêm derfynol.

Dei Evans, Pont Robert, o Dîm B y Goat oedd pencampwr y gemau dominos i unigolion.

Twrnamaint Dartiau a Dominos blynyddol y Goat.
Casglwyd dros £800 eleni, tuag at gronfa'r Ambiwlas Awyr. Yn anffodus, nid yw'n bosibl trefnu noson i gyflwyno'r arian ar hyn o bryd ond mi ddaw y cyfle rhyw ddydd – gobeithio.

Y Neuadd
Yn anffodus, o ganlynaid i effaith y Coronafeirws, bu'n rhaid gohirio'r cyngerdd yng nghwmni Côr Llansilin, oedd i'w gynnal ym mis Mai. Ni fydd unrhyw weithgaredd yn cael ei gynnal yn y Neuadd nes y bydd y sefyllfa'n gwella.

Cydymdeimlo
Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Dewi Evans, Lloran, yn 94 oed. Cydymdeimlwn â'i blant, Arwel, Gareth a Bethan a'u teuluoedd.

Dymuniadau Da
Dymunwn yn dda am wellhad buan i Mrs Megan Jones, Llanfyllin, (Llety Llwyd gynt), a dreuliodd gyfnod yn Ysbyty'r Amwythig yn ddiweddar, wedi iddi syrthio ger ei chartref. Mae wedi dod i Ysbyty'r Trallwng erbyn hyn a gobeithio y bydd yn cael dod adref i Lys Glas yn fuan.

Rydym yn anfon ein cofion at Hywel Pryce, Cefn Gleisiog, sydd hefyd wedi gorfod teithio i'r Amwythig yn ddiweddar er mwyn derbyn triniaeth feddygol. Dymunwn yn dda iti, Hywel.

Y Feirws
Gobeithio y bydd pawb o ddarllenwyr Yr Ysgub yn medru osgoi'r hen feirws ofnadwy 'ma. Tra'n sgwennu hwn, ar yr 22ain o Fawrth, mae'n edrych yn gynyddol debyg y bydd rhwystrau pellach yn cael eu gosod ar ein symudiadau a'n gweithgareddau, a'n ffordd o fyw yn newid yn gyfangwbl am wythnosau i ddod, o bosibl. O diar. Ond, eisoes rydym wedi gweld enghreifftiau o garedigrwydd mawr yn cael ei ddangos tuag at bobl er, nid yw hyn yn digwydd ym mhobman wrth gwrs – ac mae caredigrwydd mor bwysig. Synodd Catrin (ni) fel yr oedd gwraig o dras Chineaidd wedi diolch iddi am ei charedigrwydd yn yr Amgueddfa Genedlaethol (lle mae Catrin yn gweithio) am ei bod wedi ei helpu i gario'i bagiau i fyny'r grisiau mawr carreg 'na sydd yn yr Amgueddfa. Ychwanegodd fel yr oedd wedi bod yn derbyn gymaint o sylwadau "angharedig" yn ddiweddar, am ei bod yn amlwg o dras Chineaidd a phobl fel petaent yn ei beio HI am ymweliad y Feirws â'r ynys hon. Roedd derbyn ychydig o garedigrwydd yn amlwg wedi golygu llawer iddi. Felly, os y daw unrhyw fath o ddaioni o'r hen aflwydd hwn, efallai mai ein gwneud yn bobl mwy caredig fydd hynny. Ac nid oes rhaid i'r caredigrwydd hwnnw fod ar ffurf ymarferol 'chwaith. Mae geiriau caredig yn medru golygu llawer - a geiriau angharedig, diangen yn medru brifo. Tybed, a welwn wahaniaeth yn y ffordd yr ydym yn trin ein gilydd yn y blynyddoedd i ddod? Hmmm, cawn weld……..

# Llansanffraid

Amser o gystudd.

Cydymdeimlwn â Gloria a Roy Jones o glywed y newyddion trist am farwolaeth eu merch Eleri yn ddiweddar. Estynnwn gydymdeimlad hefyd i chwaer Eleri sef Anna Davies a'i theulu oherwydd y brofedigaeth yma. Yn ychwanegol i'r amser yma o gystudd rydym yn dymuno gwellhad buan i Roy ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

# CYHOEDDIAD

Ar ôl naw mlynedd yn gwneud y gwaith mae Llinos ein teipyddes a'n gosodwraig wedi penderfynu ei bod yn amser iddi roi'r gorau iddi. Mae gwaith Llinos wedi bod yn hynod o broffesiynol ar hyd yr amser ac fe hoffai'r golygyddion ddiolch o galon iddi am ei diwydrwydd am gyfnod mor hir a dymunwn yn dda iddi hi a'r teulu yn y dyfodol. Diolch Llinos.

Wrth gwrs mae hyn yn golygu nad oes gan yr Ysgub deipydd/gosodwr swyddogol ar hyn o bryd a bod cyfle felly i unrhyw un sydd â diddordeb i ymgymryd â'r gwaith. Os oes gennych chi ddiddordeb cysylltwch am fwy o fanylion ag Alwenna Evans ein hysgrifenyddes – e-bost: alwennaevans@yahoo.co.uk

Yn y cyfarfod blynyddol hefyd fe benderfynwyd codi pris yr Ysgub i 80c mis nesa neu pryd bynnag fydd pethau nôl i drefn! Mae'n dal i fod yn fargen!

Cefnogwch eich papur bro! Prynwch yr Ysgub!

# Llanfyllin

## Alwena Francis

Ychydig iawn o newyddion sydd y mis yma fel y gellwch ddychmygu gan bod YR HAINT wedi peri i lawer digwyddiad gael ei ganslo ac i ni hynafgwyr i hunan-ynysu. Dim ond gobeithio y bydd pawb yn cadw'n iach yn yr amser rhyfedd hwn.

**Gŵyl Dewi**

Cynhaliwyd oedfa Gŵyl Dewi yn ôl yr arfe. Y Parch Peter Williams,Carno oedd y pregethwr gwadd a bu'n ein hatgoffa o hanes a gwerthoedd Dewi Sant ynghyd â'n hannog i ddyfalbarhau yn y ffydd fel y gwnaeth Dewi Sant mewn cyfnod anodd iawn.

**Drws Agored**

Croesawodd Rhoswen Charles bawb ynghyd wedi seibiant tros y Gaeaf. Cyfeiriodd yn arbennig at y bwlch yr oeddem yn ei deimlo o golli un o'n haelodau ffyddlonaf, sef Eldrydd Jones. Siaradwr y noson oedd Jessica Duche o 'r Eglwys Wen a ddaeth i siarad am Hosbis Hafren. Rhyfeddod oedd deall ei bod yn costio dros £23,000 y diwrnod i gynnal y lle a bod y siopau elusen wedi codi £1 miliwn o bunnoedd. Yn ystod 2019 rhoddwyd cymorth i 2908 o deuluoedd. Ar hyn o bryd mae datblygiadau mawr yn yr Amwythig i agor caffi a lle addas i gleifion dreulio diwrnod. Roedd wir yn agoriad llygad i glywed am yr holl waith da sy'n digwydd yno ond hefyd sylweddolom cymaint o arian sydd ei angen er mwyn i'r gwaith da barhau.

**Bore Coffi Hosbis Hafren**

Cynhaliwyd bore coffi Cymreig yn yr Institiwt ddiwedd Chwefror a llwyddwyd i godi £635.25 tuag at yr achos. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth ac yn gwahodd aelodau newydd i ymuno â nhw. Dyma rifau ffôn aelodau o'r pwyllgor os hoffech ymuno â'r grŵp brwdfrydig hwn. Llinos Jones 91938555739 a Jenny Ellis 07815557013

**Dymuniadau gorau**

Anfonwn ein cofion at Mrs Megan Jones, Llys Glas, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd wedi iddi gwympo a thorri ei chlun. Ein cofion cynnes iawn atoch Megan a gobeithio eich bod yn gyfforddus ac yn gwella. Gwellhad buan hefyd i Mair Ellis sydd wedi cael anffawd a thorri ei bigwrn. Gobeithio y byddwch yn gwella'n fuan a chofion cynnes atoch chi hefyd.

**Dydd Gweddi Byd Eang**

Ar y Gwener cyntaf ym Mawrth cynhaliwyd y gwasanaeth arbennig hwn yng nghapel Pendref. Merched Rwanda oedd wedi paratoi y gwasanaeth a'r thema oedd "Cymer dy fatras i fyny a cherdda'. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Ros Crawford (a hithau wedi ei magu yn Rwanda) a chymerwyd rhan gan aelodau eglwysi Llanfyllin. Wedi'r gwasanaeth mwynhawyd sgwrs dros baned yn y festri.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Nigel Parks ar ei ddyweddiad yn ddiweddar. Pob lwc i'r ddau ohonyn nhw.

**Merched y Wawr**

Dathlwyd Gŵyl Dewi gyda chinio yn y Stumble Inn nos Fercher Chwefror 26, ac mae gennym le i ddiolch i'r gwesty am y bwyd blasus ac am addurno'r stafell gyda chennin Pedr a baneri Cymru. Croesawodd Margaret Thomas bawb ac arweiniodd Alwena Francis ni mewn gweddi. Daeth "Lleisiau'r Dyffryn" i'n diddanu. Dyma barti o ferched ifanc a ffurfiwyd yn wreiddiol i gystadlu yn eisteddfodau'r ffermwyr ifanc ac roedd yn fwynhad pur gwrando ar eu canu swynol. Diolchodd Nan Humphreys iddynt ar ran y gangen.



*Lleisiau'r Dyffryn*
*criw dawnus iawn o Ddyffryn Banw*

**AWYRBLYMIO TANDEM I ELUSEN - JANE JONES**

Eleni bydd Jane Jones, Llanfyllin, yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ac i nodi'r achlysur mae hi'n gwneud awyrblymio tandem i elusen ar 27 Mehefin yn Tilstock.

Dros y blynyddoedd mae Jane wedi trefnu a chymryd rhan mewn amryw o ddigwyddiadau elusennol i godi arian gan gynnwys, cerdded, beicio, gwau distawrwydd (!), Pêl-droed merched 'a chriced.




Y rheswm y mae Jane yn ymgymryd â'r her ddiweddaraf hon yw codi arian ar gyfer Ymchwil Dementia. Ddeng mlynedd yn ôl a ddwy flynedd ar ôl dathlu eu phen-blwydd priodas euraidd datblygodd ei gŵr, Leonard, ddementia, afiechyd creulon a newidiodd ei fywyd. Mae Leonard yn adnabyddus ledled y gymuned gan ei fod yn adeiladwr lleol, yn fabolgampwr brwd, yn hoff o gerddoriaeth, dawnsio a chymdeithasu.

Mae dementia, sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar 850,000 o bobl yn y DU, wedi cael effaith enfawr ar y teulu cyfan. Ar adegau, mae Jane yn profi rhwystredigaeth, dicter, gwadiad, tristwch ac unigrwydd. Fodd bynnag, mae meddyginiaeth, gan gadw at drefn, bod yn egnïol, ynghyd â chefnogaeth teulu, yn cadw Len yn hapus ac yn "byw am y foment."

Mae Jane yn gobeithio gwneud cymaint o arian â phosib o'i awyrblymio ar gyfer ymchwil dementia trwy Gymdeithas Alzheimers, sy'n cynnig cefnogaeth ac yn codi ymwybyddiaeth wrth iddyn nhw geisio dod o hyd i ateb ar gyfer clefyd sy'n hawlio un achos newydd, yn y DU, bob 3 munud.



Gallwch gyfrannu ar-lein trwy "Just Giving" (chwilio Jane, Llanfyllin) neu gyda siec yn daladwy i "Alzheimer's Society" a'i anfon i: Jane Jones, 21 Maes Myllin, Llanfyllin, SY22 5DQ

## Ysgol Gynradd Llanfyllin- Rhian Grifiths.

**Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi**. Oherwydd y tywydd anffafriol ar y diwrnod, rhaid oedd gohirio ein gorymdaith o amgylch y dref. Daeth y disgyblion i'r ysgol yn gwisgo coch neu liwiau Cymraeg a drwy gardigrwydd Menter Iaith Maldwyn a Mudiad Meithrin cawsant gyfle i gael blas ar ddawnsio gwerin.

**Diwrnod y llyfr**. Er mwyn nodi diwrnod y llyfr daeth y disgyblion i'r ysgol yn gwisgo fel cymeriad allan o lyfr. Buont yn trafod eu cymeriad ac yn y prynhawn cawsom 'siop cyfnewid llyfrau', ble fuont yn cyfnewid hen lyfr gydag eraill.

**Gala nofio WASPS**. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion fu'n cystadlu yn y gala. Llwyddodd cryn dipyn o'r disgyblion i dderbyn safle. Dyma'r canlyniadau.
**Cyfnewid Agored awrywiol**- **1af** Ryan Evans.
**Cefn**: **1af** Iestyn Evans (bl3), **2il** Gethin Jones (bl5) a Llyr Jones (bl4)
**Broga: 1af** Dion Evans (bl3) a Ryan Evans (bl6), **2il** Ffion Gittins (bl4), Gethin Jones (bl5) a Seren Hughes (bl6)
**Pili pala: 1af** Ryan Evans (bl6) **2il** Joe Morris (bl6) Nadia Osmeda (bl6) Llion Morris (bl4)
**Rhydd: 1af** : Dion Evans (bl3) Ffion Gittins (bl4) Charlie Jones (bl5) Ryan Evans (bl6) **2il** Arthur Prust (bl3) Nadia Osmeda (bl6)
**Cyfnewid: 1af** Bechgyn 3 a 4, Merched 3 a 4 a Bechgyn 5 a 6

**Ymweliad Osian a Branwen:**
Cawsom ddiwrnod bendigedig fel ysgol yng nghwmni'r brawd a chwaer talentog, Osian a Branwen Williams. Daethant atom i gynnal gweithdy ysgrifennu cân gyda dosbarthiadau Cyfnod Allweddol au. Yn dilyn yr ysgrifennu bu Osian a Branwen yn cydweithio ar y gitâr yn gosod alaw ar eiriau y dau ddosbarth. Roedd y plant wirioneddol wedi mwynhau'r profiad ac yr uchafbwynt oedd gweld y dosbarthiadau yn perfformio eu caneuon i'r ysgol.

Dyma beth ddywedodd Aron am y diwrnod.:

*Ar ddydd Mercher 4ydd o Fawrth 2020 daeth prif ganwrCandelas, Osian i'r ysgol gyda'i chwaer Branwen. Mae Osian dros 6 droedfedd o daldra. Hoff offeryn Osian yw gitâr a hoff offeryn ei chwaer yw'r piano. Fel Criw Siarter Iaith yr ysgol roeddem wedi gwahodd Osian a Branwen i greu cân ac i godi ein hymwybyddiaeth ni am ganeuon Cymraeg.*
*I ddechrau, chwaraeon ni gêm trefnu ein hunain mewn llinell gyda llythyren gyntaf ein henw. Nesaf chwaraeon ni gêm wahanol efo lliw gwallt o'r goleuaf i'r tywylla; roeddwn i yn mwynhau. Ar ôl hynny roedd y dosbarth angen actio beth roedden ni eisiau bod pan rydym yn hŷn heb siarad. Actiais i bod yn chwaraewr rygbi. Roedd Osian eisiau bod yn chwarewr pêl droed pan oedd o yn ein hoed ni.*

*Nes ymlaen dangosodd Osian glip fideo o Candelas yn chwarae eu cân newydd nhw "Anifail". Wedyn roedd yn rhaid i ni greu syniadau am beth fyddai yn ein cân ni. Pleidleision ni bod y gân amdan Llanfyllin. Wedyn roedd Branwen a'r dosbarth wedi ysgrifennu y gân ac roedd Osian yn penderfynu ar gerddoriaeth.*

*Cyn hynny roedd Osian wedi canu "Llwytha'r gwn" ac roedd pawb wedi mwynhau. Dysgais i fod y gân "Llwytha'r gwn" ddim am wn go iawn, mae'r gân amdan meddwl cyn dweud rhywbeth.*
*Roeddwn i wedi mwynhau yn fawr iawn.*

Dyma y ddwy gân ysgrifennodd y ddau ddosbarth, ac os hoffech glywed y disgyblion yn eu canu yna ewch i dudalen 'Trydar' yr ysgol.

**Llanfyllin**

**Cytgân:**
Llanfyllin sy'n le hapus,
Llanfyllin sy'n le braf
Yn llawn o bobol annwyl iawn
Boed aeaf neu boed haf.

Y glaw a'r goeden unig
Yr ysgol orau 'rioed,
Mynyddoedd gwyrdd anferthol
Y dolydd hen a'r coed.

Nofio'n chwim a siopa
Ffermio ŵyn a moch
Cystadlu yn 'steddfod
Dan faner y ddraig goch

Dosbarth Bl 5 a 6

**Y Byd**
**Cytgân:**
Edrychwch ar ôl y byd
Edrychwch ar ôl y blaned
Dewch i ddathlu ei hud
a lapio'r byd mewn blanced

Mae Cymru yn wlad arbennig
mynyddoedd nentydd a blodau
yr Wyddfa, Llyn Celyn a'r cestyll
Cymru yn wir 'di'r gorau

Llanfyllin sy'n lle ffantastig
Siopau a'r caffis a ffrindiau
Penllys a Llyn Llanwddyn
Llanfyllin yn wir yw'r gorau.

Dosbarth Bl3 a 4

**Yr Urdd**: Yn dilyn ymarferion diri, yn anffodus oherwydd sefyllfa COVID-19 bu i'r Eisteddfod cylch cael ei chanslo eleni. Ohrwydd bod y disgyblion wedi paratoi mor drylwyr cawsom fore i berfformio ein heitemau o flaen yr ysgol. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl staff a fu'n cynorthwyo gyda paratoadau eleni. Diolch yn arbennig i Miss Brenda Davies a Gwenan Jones am gynorthwyo yn ogystal â Nicky Dixon, Megan Ifans a Delyth Evans.

# DIOLCHIADAU

Diolch yn fawr.

Dymuna Edwina Ellis, Llangynog ddiolch o galon i'w theulu a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad ac am eu ffyddlondeb a'u caredigrwydd i Ellis a hi yn ystod y chwe mlynedd diwethaf.

Dymuna Mabel Roberts (Llanwddyn) a'r teulu ddiolch o galon am bob cydymdeimlad a chymorth a gawsant pan fu farw Brian. Diolch am yr holl flodau, cardiau, a galwadau ffôn, i bawb a gymerodd ran ar ddydd yr angladd mewn unrhyw ffordd, am bresenoldeb yn y gwasanaeth ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof.

Diolch yn fawr iawn.

**Gwyn Tŷ Mawr, Cymdu**

Dymuna'r teulu diolch i bawb am eu caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Diolch yn arbennig am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r presenoldeb yn y gwasanaeth a hefyd am y rhoddion tuag at gapel Moria, Cymdu a Chapel Seion, Llanrhaeadr Y. M.

Diolch i staff Ysbyty Brenhinol Amwythig am eu gofal yn ystod ei wythnosau olaf.

Diolch yn arbennig i Barch Gwyndaf Richards am arwain y gwasanaeth, Thomas Morris am arwain y canu a Linda Thomas wrth yr organ. Diolch hefyd i'r cludwyr a'r tywyswyr a Mrs Marian Morris am ddarparu'r lluniaeth a Gari o gwmni I Jackson a'i feibion am ei gwasanaeth proffesiynol.

Gwynfryn Jones, Llawrycwm Llanfyllin.

Dymuna Ann, Paul, Izzie, Tim a'r teulu i gyd, ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.
Diolch am y llu cardiau, y negeseuon ar galwadau ffón. Hefyd am y rhoddion hael o £1,061 i Gapel Tabernacl a'r Feddygfa yn Llanfyllin.

Diolch hefyd i'r Parch Gwyndaf Richards a Tom Ellis am eu rhan yn y gwasanaeth a diolch i Llywela wrth yr organ ac i Gary Ellis am ei drefniadau proffesiynol.

# DIOLCHIADAU

Dymuna'r Ysgub ddiolch i'r canlynol am eu rhodd ariannol. Rydym yn gwerthfawrogi bob cyfraniad i'n cynorthwyo i gynnal y papur.

Robin ac Eleri Gwyndaf, Caerdydd.

Eldrydd Gruffydd, Tremadog.

E Wyn Williams, Llanfair Caereinion.

**<u>DIOLCH -</u>** Dymuna Norman a Barbara, Tan Llan ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau a rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas aur yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Dymuna Golygyddion yr Ysgub gydymdeimlo'n gywir iawn â theulu'n gohebydd yn Llansanffraid Roy Jones, ac â Gloria ac Anna a'r bechgyn ar golli merch, chwaer a modryb mor sydyn. Cofion atoch fel teulu.

# Y CROESAIR

**Diolch** i'r 7 am ymateb i'r croesair tro yma. Deall bod ambell un arall wedi cychwyn ond heb orffen!

Dyma'r enwau:

Gwenda Hughes, Penygarnedd; Alwena Francis, Llanfyllin; Megan Ifans, Llanfyllin; Ieu Matthews, Maengwynedd; Meinir Hughes, Llwydiarth, Rhian Lloyd Evans Llanfyllin a Mair Jones, Pontfadog.

A'r enw lwcus ddaeth o'r het y tro yma ydi **Megan Ifans.**

Bydd gwobr o £10 ar ei ffordd yn fuan.

Diolch i chi gyd am gefnogi.

# Cystadleuaeth Cornel y Plant

Yn gyntaf, diolch yn fawr iawn i chi i gyd am gymryd rhan a lliwio'r Wyau Pasg. Roedd ugeiniau ohonyn nhw. Gret.

Llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr sef

**<u>6 oed ac iau:</u>**

Betsan Jones – Y G Llanrhaeadr YM

Ellis Morris – Y G Llanrhaeadr YM

**<u>7 oed a hŷn:</u>**

Ffion Gittins – Y G Llanfyllin

Eva Martuccio – Y G Llanrhaeadr YM

Fe gewch eich gwobr yn fuan.

# Llanrhaeadr ym Mochnant

Rona Morris

Clwb Pêl Droed Llanrhaeadr Ym Mochnant

Ar Sul cyntaf mis Mawrth cynhaliodd Clwb Pêl Droed Llanrhaeadr ginio arbennig. Daeth 110 ynghyd i'r neuadd i fwynhau pryd blasus wedi ei baratoi gan gwmni Helen Davies, Fordsheath ger yr Amwythig.

Y gŵr gwâdd oedd Dean Saunders a chafwyd araith ddifyr iawn ganddo. Bu yn hel atgofion am ei gyfnod yn chwarae i Aston Villa pan fu Ron Atkinson yn reolwr. Clywsom hefyd sôn am ei brofiadau wrth chwarae dros Gymru pan oedd Mike England wrth y llyw.

Kurtis King oedd y digrifwr fu yn diddanu ac yfo hefyd fodlonodd i wisgo het arwerthwr am gyfnod wrth gynnal arwerthiant o sawl rhôdd.

Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr achlysur.




*Jess a Sioned yn mwynhau yng nghwmni Dean Saunders*

**Merched y wawr**

Daeth 29 ohonom ynghyd i Westy'r Wynnstay, Llanrhaeadr i ddathlu Gŵyl Dewi. Croesawyd pawb yno gan ein Llywydd Bronwen Jones a roddodd y fendith hefyd. Cafwyd cinio poeth wedi ei baratoi gan Staff y Wynnstay.

Yn dilyn y pryd blasus cyflwynodd y Llywydd ein gwesteion sef Iona Jones ar y piano, Nia Turner a Lowri Williams yn canu. Pawb wedi mwynhau gwrando ar y deuawdau a'r unawdau. Diolchodd Mailys Evans yr Is- Lywydd i'r staff am eu croeso, i'r gwesteion ac i'r aelodau a ffrindiau am ymuno yn y dathlu. Hefyd diolchwyd am y raffl gan y Swyddogion.

*Adroddiad Eirian Jones*



*Rhes gefn. Gwenan Davies, trysorydd, Mailys Evans Is Gadeirydd, Bronwen Jones Cadeirydd, Nia Turner a Lowri Williams. Rhes flaen, Eirian Jones Ysgrifenyddes a Iona Jones*

**Sioe Llanrhaeadr**

Rhywbeth i gadw chi'n brysur yn y gobaith y byddwn yn gallu cynnal y sioe ym mis Awst. Dyma categoriau Celf a Chrefft y sioe eleni:

**GWAITH LLAW**

Bag ffabrig

Bocs mewn unrhyw gyfrwng

Torch haf ar gyfer y drws

Rhywbeth newydd wedi ei greu o rhywbeth hen - unrhyw gyfrwng

**CELF A FFOTOGRAFFIAETH**

Paentio - Olew, Dyfrlliw neu Acrylig (heb ennill gwobr yn sioe Llanrhaeadr o'r blaen)

Ffotograff sengl lliw - "Dŵr"

Pâr o ddau ffotograff lliw - "Codiad yr haul a Machlud"

Ffotograff du a gwyn - "Ehediad"

Uchafswm o 2 ymgais bob person yn y dosbarthiadau hyn.

## Ffermwyr Ifanc Dyffryn Tanat Mawrth 2020

Bu'r wythnosau diwethaf yn brysur i aelodau y Clwb. Trefnwyd taith min nos ddiddorol i'r aelodau i ymweld ag adnoddau amrywiol cwmni Pickstocks ger Telford.

Bu amryw o'n haelodau yn hynod o ymroddgar wrth baratoi ar gyfer yr Ŵyl Ddrama a gynhaliwyd yn y Drenewydd. Roedd y clwb yn cyflwyno dwy ddrama. Sarah Lewis fu'n cynhyrchu y ddrama Gymraeg"Gormod o Bunch i Judy" a Maralene Griffiths a Sandra Bailey fu'n cyd cyfarwyddo y ddrama "The White Bike." Daeth llwyddiant mawr i'r clwb o fewn y Sir gyda'r ddwy ddrama yn cyrraedd y brig. Enillodd Katie Jones y wobr fel yr actors orau yr Ŵyl, Lewis Bailey a Katie Jones y wobr gyntaf am gyd chwarae ac fe enwebwyd Lowri H. Griffiths am wobr o fewn ei hadran. Enillodd Elin Lewis y wobr gyntaf o fewn ei hadran hithau yn y gystallaeaeth Gymraeg, Diolch o galon i'r holl aelodau , y cynhyrchwyr a thîm llwyfanu a'r rhai fu'n gofalu am y gwisgoedd.

Mawr oedd ein gorfoledd pan ddewiswyd Sioned Morris fel aelod hŷn y Sir yn ystod yr Ŵyl. Dymunwn bob llwyddiant iddi wrth iddi ymroi ymhellach i'w dyletswyddau amrywiol a newydd o fewn y mudiad yn y Sir.

Perfformiodd y ddau dîm y ddwy ddrama'n wych yng Nghaernarfon gyda Sian Roberts yn cael ei henwebu ar gyfer yr Actores Orau yn y Gymraeg a Lowri H Griffiths yn cael ei henwebu yn y categori Saesneg. Er na ddaeth yr un o'r ddwy ddrama i'r brig roedd aelodau Ffermwyr Ifanc Dyffryn Tanat wedi gwneud yn wych ac wedi dangos gwir ysbryd tîm.

Bu i'r aelodau ddathlu Gwyl Dewi drwy fwynhau noson o adloniant Gymreig yng nghwmni Bryn a Rhian Davies yn y Neuadd.

Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Tanat




*Y Criw Cymraeg ar ôl eu llwyddiant yn yr Ŵyl*



*Criw y ddrama Saesneg yn dilyn eu llwyddiant nhw.*




*Sioned Morris – Aelod Hŷn y Flwyddyn Ffermwyr Ifanc Maldwyn*

## Ysgol Gynradd Llanrhaeadr

**Nia Turner**

Eisteddfod Ysgol

Braf iawn oedd gweld pob disgybl yn yr ysgol yn cymryd rhan yn ein heisteddfod ysgol unwaith eto eleni, mewn cystadleuthau canu, llefaru, dawnsio, offerynnol, celf ac ysgrifennu cerddi. Pleser oedd croesawu Mrs Linda Thomas a Mrs Rona Morris i feirniadu'r cystadleuthau cerdd a llefaru. Diolch yn fawr iawn i'r ddwy am roi o'u hamser i sicrhau llwyddiant ein diwrnod. Hefyd, diolch yn fawr i'r athrawon a Mrs Eleri Roberts a fu'n beirniadu'r gystadleuaeth celf. Roeddem fel athrawon yn falch iawn o dalentau pob plentyn a gymerodd rhan. Llongyfarchiadau i Rhaeadr am ennill y mwyaf o farciau ar y diwrnod. Hefyd i'r beirdd a ennillodd y goron, Elen a Millie a'r unigolion a enillodd wobrau teilyngdod - Osian, Gethin a Mille. Yn sicr, roedd yn ddiwrnod i'w gofio.



*Rhaeadr yn ennill y Steddfod*



Enillydd y Wobr Teilyngdod Cyfnod Sylfaen




*Enillydd Y Wobr Teilyngdod Cyfnod Allweddol 2*




*Enillydd y goron dosbarth Mr Richards*




*Enilydd y goron – dosbarth Mrs Turner*



*Enillydd y Wobr Mwyaf o bwyntiau*

Ymweliad â'r Cae Ras

Aeth disgyblion ac athrawon i wylio tîm pêl-droed merched Cymru yn Cae Ras Wrecsam mis diwethaf. Bu'r plant yn mwynhau cefnogi'r tîm wrth iddynt chwarae yn erbyn Estonia. Diolch i Mr Richards am drefnu.

## Daw eto haul ar fryn!



*Disgyblion Llanrhaeadr yn y Cae Ras Wrecsam*

Dathliadau / Ymweliadau

Bu'r plant yn mwynhau gwisgo fel eu hoff cymeriad ar Ddiwrnod y Llyfr eleni. Hefyd, diolch i'r Cyngor Chwaraeon am drefnu gweithgareddau llawn hwyl ar gyfer Sports Relief! Trwy wisgo dillad eu hunain roedd yr ysgol a'r Cylch Meithrin wedi codi £60 at yr achos.

Bu plant CA2 yn cymryd rhan mewn perfformiad gyda Symphonia Cymru, ac ysgolion eraill, yn Theatr Hafren. Roedd y perfformiad wedi ei seilio ar opera Beethoven o'r enw Fidelio. Braf oedd gweld gwaith celf blynyddoedd 5 a 6 ar y llwyfan. Diolch i Ymddiriedolaeth Cerdd Canolbarth Cymru am drefnu, ac i Hilary a Graham am gynorthwyo'r plant gyda'r gwaith celf.



*Gwaith celf y plant ar lwyfan Theatr Hafren*

Urdd

Fel y gwyddoch, mae'r Urdd wedi cael ei ganslo eleni yn sgil y Covid-19. Hoffai'r ysgol ddiolch i bob plentyn am eu gwaith caled wrth baratoi tuag at yr Urdd, a gwerthfawrogwn waith y pwyllgorau gwirfoddol a swyddogion yr Urdd wrth drefnu'r ŵyl. Dymunwn pob iechyd i bawb dros y cyfnod anodd hwn.

# Llangedwyn

**Brenda Williams**

**Priodas**

Ddechrau mis Chwefror yn Eglwys Cedwyn Sant priodwyd Nicholas William Wynne a Georgia gan y Parchedig Peter Heaney. Enid Breeze oedd yr organyddes ac fe roddodd unawd ar y delyn,a chafwyd deuawd gan Richard a Robert Lewis, Llanfyllin. Roedd y neithior yn Y Plas i griw bach.

**Ysbyty**

Bu Joyce Jones Thomas, Y Berllan am gyfnod yn yr ysbyty ond adre erbyn hyn a hefyd Leonard Lewis, ac yntau adre bellach.

# Llansilin

Carys Evans

Clwb yr Henoed

Cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni Goronwy Jones, Bwlchydongau. Aeth â ni yn ôl i'r 40'au a'r 50'au o'r ganrif ddiwethaf. Soniodd am rai o drigolion oedd yn byw o ardal Cyrn y Bwch i dop Garn y Rhiwlas yr adeg hynny. Diddorol iawn – deunydd llyfr diddorol!

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yng nghwmni Iona, Muriel Goronwy a Mal. Cafwyd caneuon amrywiol ganddynt a phawb wedi mwynhau y prynhawn a'r te blasus i ddilyn, a pice ar y maen Rosemary yn hynod o flasus.

Y Gymdeithas Ddiwylliadol.

I gloi tymor y Gymdeithas cafwyd cinio blasus iawn i ddathlu gŵyl ein Nawdd Sant, Dewi. Paratowyd y bwyd gan Jean Lewis a diolchwyd o galon iddi am baratoi cinio i ni ar hyd y blynyddoedd gan mai dyma'r tro olaf oherwydd mae am roi fyny y gwaith o arlwyo. I'n diddanu ar ôl y gwledda cawsom wledd arall gyda'r telynor Robin Huw Bowen ar y delyn deires. Hefyd cawsom alaw neu ddwy gan ei ddisgybl disglair, Cadi Glwys Davies. Noson wirioneddol Gymreig.



**Gyrfa Chwist Mis Mawrth.**

**Merched**. 1af,Rowena Thomas ,2ail John Roberts; 3ydd. Rhys Hughes.Gwobr Gysur,Olwen Fleet. **Dynion.**1af,Wyn Thomas; 2ail, Glenna Evans.3ydd Riv Carter .Gysur Alan Oakley.**Raffl**: Glenna Evans, Jeff Davies, Rowena Thomas, Alan Oakley, Bryn Jones, Mannon Davies .

**Clwb 250.** Rhif 245,Jonathan Sockett, Llansilin; Rhif 93, Trefor Jones, Llansilin. Rhif 161, Amelia Evans, Penybont Fawr; Rhif155, Ted and Lyn Bathel, Llansilin.

## CLWB FFERMWYR IFANC LLANFYLLIN

Mae CFfI Llanfyllin wedi bod yn brysur iawn drwy gydol mis Ionawr a Chwefror yn paratoi at yr ŵyl ddrama yn Theatr Hafren yn y Drenewydd. Cawsom lawer o hwyl arni yn perfformio 'Escapism' - drama am grŵp o ffermwyr ifanc yn mynd ar drip i 'Stafell Ddianc' ac mae pethau yn dechrau mynd o'i le! Cafodd y ddrama ei hysgrifennu a'i chynhyrchu gan ein cyn aelod Lucy Jones. Daethom yn 5ed yn gyfan gwbl efo Richard Lewis ac Ifan Jones yn cael eu henwebu fel yr actor gorau yn eu hoedrannau.

Ynghyd â'r ŵyl ddrama ymgeision ni yng nghystadleuaeth y 'One Plus' - cystadleuaeth sy'n rhoi 6 munud i chi berfformio unrhyw beth o flaen y llenni ar lwyfan y theatr. Roedd y tri thîm yn dda iawn ond llwyddodd grŵp 'Nofio Cydamser' ddod yn 3ydd yn gyfan gwbl! Da iawn i bawb a gymerodd rhan a diolch i'r holl bobl a helpodd tu ôl i'r llenni!




**Y criw hwyliog yn perfformio yn Llanfihangel**



**Y dawnswyr ysgafndroed**



**Y nofwyr talentog**

SWYDDFA MENTER IAITH MADLWYN

Rhian Davies

Am y tro, yn sgil effaith feirws Covid-19, bydd staff Menter Iaith Maldwyn yn parhau i weithio o adref yn bennaf. Bydd aelod o staff yn galw heibio'r swyddfa yn achlysurol, ond y ffordd gorau i gysylltu â ni fydd trwy ein tudalen Facebook neu ebostio.

Gyda nifer helaeth o ddigwyddiadau cymunedol ar draws Cymru yn cael eu gohirio, mae her o'n blaenau i gefnogi ein gilydd trwy gyfnod o ansicrwydd. Os allwch chi feddwl am unrhyw weithgareddau neu digwyddiadau yr hoffech i'r Fenter drefnu ar lein er mwyn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich cartrefi, cysylltwch â rhian@mentermaldwyn.cymru gyda'ch syniadau.

Un o'r ymatebion mwyaf Cymreig sydd wedi codi o'r sefyllfa ydi tudalen Côr-ona ar Facebook. Mae'n werth ymuno â'r dudalen yma ac yn sicr o godi calon. Hyd yn hyn, mae dros deg mil o bobl wedi ymuno â'r côr rhithiol yma, ac yn rhannu fidoes o unigolion yn morio canu o bob cwr o Gymru. Gallwch chi hyd yn oed canu eich deuawd eich hun gyda neb llai na Rhys Meirion!!

Cymerwch ofal a cadwch yn saff ac yn iach bobl bach!

## GŴYL CERDD DANT BRO NANSI

Cynhaliwyd cyfarfod diweddaf o Bwyllgor Gwaith Gŵyl Cerdd Dant Bro Nansi ar y 10fed o Fawrth. Y teimladau bryd hynny oedd ein bod yn bwrw ymlaen gyda threfniadau'r ŵyl ar gyfer mis Tachwedd 2020, gan obeithio y bydd y feirws wedi pasio erbyn hynny.


Yn anffodus, mae nifer o'r digwyddiadau codi arian wedi cael eu gohirio, gan gynnwys noson gyda Gwenan Gibbard yn Neuadd Goffa Llansilin ar y 1af o Fai, Sioe Ffasiwn Kathy Gittins yn y Trallwng ar Ebrill yr 2il a Noson Lawen yn cael ei recordio yn Llanfair Caereinion rhwng y 4-7fed o Ebrill. Gobaith Cwmni Da ar hyn o bryd yw ail-drefnu'r recordio yn Llanfair rhwng y 25-28ain o Awst. Gan nad oes modd sicrhau y bydd yr un artistiaid ar gael i berfformio ar y dyddiadau newydd, rydym wedi cael cyfarwyddyd i ddychwelyd arian pawb sydd eisoes wedi talu am docynnau. Cysylltwch â Rhian ar 07969 062263 neu Elen ar 07800 527180 i drefnu eich bod yn cael eich arian yn ôl.

Bydd angen i'r pwyllgor feddwl yn greadigol am sut i fynd ati i gyrraedd gweddill y targed ariannol!

'Da ni hefyd yn obeithiol y bydd trefniadau Gŵyl Fach Nansi yn parhau ar gyfer y 25-26ain o Fedi, ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn barhaol. Y gobaith ydi cynnal Stomp farddonol a gig gyda Gwilym Bowen Rhys, Elidyr Glyn a Bwncath yn neuadd Penybont Fawr ar nos Wener y 25ain o Fedi, a taith gerdded o gartref Nansi ym Mhenybont i'w bedd yng Nghwm Pennant Melangell ar y bore Sadwrn. Os oes yna unrhyw feirdd lleol yn awyddus i gymryd rhan yn y Stomp – cysylltwch â Rhian@mentermaldwyn.cymru. Gyda pawb yn gaeth i'w cartrefi ar y funud- bydd gan pawb ddigonedd o amser i fynd ati i farddoni!

## CYNGERDD RHITHIOL GWENAN GIBBARD

Gan fod cymaint o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol wedi gohirio, roedd angen i ni yn y Mentrau Iaith feddwl yn greadigol am sut i fynd ati i barhau gyda gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned. Felly yn hytrach na gohirio Cyngerdd Gwenan Gibbard yn Llansilin ar y1af o Fai, dyma ail feddwl a threfnu gyda Gwenan ei bod hi'n cynnal Cyngerdd Rhithiol (Virtual Concert) i ni yn lle! Mae hyn yn fodd i'r Mentrau barhau i gefnogi ein diwydiant celfyddydol trwy'r amseroedd anodd, ac yn cynnig adloniant Cymreig i bobl Cymru yn fyw i'w cartrefi trwy eu sgrin cyfrifiadurol. Felly, rhwng 7.30-8.15pm nos Wener y 1af o Fai, cofiwch droi eich cyfrifiadur neu ffôn symudol ymlaen i ymuno â ni yn y Cyngerdd Rhithiol. Edrychwch am Gwenan Mair Gibbard ar Facebook a bydd modd ei gwylio yn perfformio'n fyw o'i lolfa trwy Facebook Live. Os am rhyw reswm y byddwch yn anghofio neu'n methu gwylio ar yr amser hwn, bydd Gwenan yn gadael y recordiad ar ei thudalen Facebook fel bod modd I bobl ei wylio eto. Mae croeso i unrhyw un ar draws y byd ymuno â ni yn y gynulleidfa ar y noson! Os ydych yn gwybod am unrhyw aelodau hŷn o'r gymuned sydd yn hunan-ynysu a fyddai'n mwynhau gwylio, a fyddai modd i chi eu cynorthwyo i ddeall sut i wylio ar Facebook? Diolch a mwynhewch!




## AELWYD SYCHARTH

Gyda siom, gwelwyd drysau Aelwyd Sycharth yn cau dros dro, gyda'r cyfarfod olaf yn cael ei gynnal ar nos Sul y 15fed o Fawrth yn Neuadd Llansilin. Roedd y criw brwd yn edrych ymlaen i gystadlu am y tro cyntaf erioed fel Aelwyd yn Eisteddfod yr Urdd. Ond fel y gwyddoch, mae'r eisteddfod wedi ei ohirio tan yr haf nesaf. Bydd hi'n ddiddorol clywed beth fydd y trefniant blwyddyn nesaf, gan y bydd nifer o gymhlethdodau yn codi o ohirio am flwyddyn, e.e. bydd hanner ein grŵp dawnsio gwerin yn rhy hen i gystadlu blwyddyn nesaf yn y ddawns Bl 7-9. Tipyn o benbleth i swyddogion a phwyllgorau'r Urdd i drafod! Ond ar ddiwedd y dydd, dyma oedd y penderfyniad cywir i wneud.

Hoffai'r bobl ifanc ddiolch i Eleri Llwyd a Rhian a Bryn am eu hyfforddi, gan obeithio y daw eto gyfle i berfformio'r darn llefaru hynod addas i'r criw yma, sef y gerdd "Sycharth" gan Penri Roberts!

Edrychwn ymlaen at gael cystadlu yn eisteddfodau'r dyfodol, gan groesi bysedd y gallwn ddechrau cyfarfod

eto'n fuan. Mae bod yng nghwmni'r bobl ifanc yn donic llwyr- fel y gwelwch o'r lluniau o'r holl hwyl sydd i'w gael yn Aelwyd Sycharth.



Os gofiwch chi'n ôl ychydig o wythnosau, cyn i bawb ddechrau gofidio am y feirws, roedd rhywbeth arall yn amharu ar weithgareddau'r Aelwyd, a'r stormydd oedd rheini. Oherwydd storm Ciara, bu'n rhaid gohirio trip i'r Sinema yn Wrecsam, ond y Sul canlynol, bu 16 yn ddigon dewr i fentro allan yng nghanol storm Dennis i weld y ffilm Dr Dolittle. Dewisodd y bobl ifanc y ffilm yma gan fod y prif actor, Robert Downey Jr yn defnyddio acen Gymraeg. Er ddim yn berffaith bob tro, roedd hi'n braf clywed acen gyfarwydd ar y sgrin fawr, ac ambell i jôc Gymreig ei naws.



*Aelwyd Sycharth -Aelodau a theuluoedd Aelwyd Sycharth yn mwynhau trip i Sinema Wrecsam i weld Dr Dolittle*

**<u>RAS YR IAITH</u>**

Roedd Ras yr Iaith yn fod i ymweld â Drenewydd ar y 9fed o Orffennaf eleni, ond fel nifer fawr o ddigwyddiadau chwaraeon, bydd y digwyddiad yn cael ei ohirio am flwyddyn. Y gobaith yw y bydd Ras yr Iaith yn cael ei chynnal ar draws Cymru yn ystod mis Gorffennaf 2021. Digonedd o amser i bawb fynd allan i ymarfer rhedeg yn yr awyr iach yn y misoedd i ddod!

# MENTER IAITH FFLINT A WRECSAM

**Dathliadau a Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi Wrecsam**

Cafwyd diwrnod anhygoel i ddathlu Nawddsant Cymru yn Wrecsam ar ddydd Sul, 1af o Fawrth. Daeth cannoedd o bobl o bob rhan o'r gymuned yn Wrecsam ynghyd i ddathlu ac ymfalchio yn eu Cymreictod a chymryd rhan yn yr orymdaith flynyddol drwy strydoedd y dref. Trefnwyd y dathliad gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam gyda chydweithrediad a chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Roedd y tref yn fôr o goch, gwyn a gwyrdd wrth i deuluoedd a phobl o bob oed ddod i gymryd rhan yn yr orymdaith trwy'r dref dan arweiniad ysbrydoledig Band Cambria. Am y tro cyntaf eleni, ymunodd Band Colliery Ifton hefyd yn yr orymdaith. Roedd hefyd yn braf cael Maer Wrecsam, Cyng.Rob Walsh a Phrif Weithredwr CBSW, Ian Bancroft yn gorymdeithio hefo ni.

Yn dilyn yr orymdaith, parhawyd â'r dathliadau'n Nhŷ Pawb gyda Mic ar y Meic yn cyflwyno a diddanu'r dorf. Diddanwyd y dorf gan adloniant byw gan Gôr DAW ac Andy Hickie a chafodd pawb gyfle i gyd-ganu'r Anthem Genedlaethol a Chalon Lân.

Hoffem fel Menter ddiolch yn fawr iawn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am eu cefnogaeth wrth drefnu'r dathliadau. Diolch hefyd i'r Heddlu, Ambiwlans St. Ioan am eu cymorth a'u cefnogaeth ac i'r holl wirfoddolwyr a gynorthwyodd gyda dyletswyddau stiwardio yn ystod y diwrnod.

Mae'n hynod braf gweld yr orymdaith a'r dathliadau yn mynd o nerth i nerth bob blwyddyn ac ei fod yn ddigwyddiad sy'n parhau i ddod â'r gymuned at ei gilydd. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn nathliadau Dydd Gŵyl Dewi 2021.

**Gohirio Digwyddiadau Menter Iaith Fflint a Wrecsam**

Oherwydd y sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran Coronafeirws, ni fyddwn yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau/ gweithgareddau am y tro, a hynny er iechyd a lles y cyhoedd, staff a gwirfoddolwyr.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi drwy ein cyfryngau cymdeithsol dros wythnosau nesaf a'ch diweddaru'n syth a mor rheolaidd a phosib os oes unrhyw ddatblygiadau pellach. Mae hefyd croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bostio'n staff yn uniongyrchol, e-bostio ein e-bost cyffredinol: gwybod@menterfflintwrecsam.cymru neu ffonio'r rhif canlynol: 07578 716 081. Ni fydd modd i chi gysylltu â ni drwy ffonio ffôn y swyddfa am y tro.

Cadwch yn saff! Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth.

**Apiau Magi Ann**

Gyda'r ysgolion yn cau am gyfnod amhenodol, cofiwch bod apiau Magi Ann ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi ar Storfa Apiau ios ac Android. Mae 6 ap i gyd a rhain i gyd yn cynnwys straeon lliwgar a gemau hwyliog i helpu plant i ddysgu darllen yn y Gymraeg!




*Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi*

# Cylch y cartref

# Nan

Er yr amserau brawychus yma, mae byd natur yn gyrru yn ei flaen a'r blodau ar hyd Lôn Derwlwyn yn ddigon o sioe! Mae na rhiwbob ffres wedi tyfu yn yr ardd hefyd a dyna beth wyf wedi bod yn ei wneud bore ma yw paratoi i wneud Jam Rhiwbob, oren a sinsir. Defnyddiais beth rhiwbob ffres a'i wneud fyny â rhiwbob o'r rhewgell o'r llynedd.(Mae'r adeg yma'n gyfle i ddefnyddio'r holl fwydydd na sydd wedi bod yn cuddio yng ngwaelod y rhewgell!)




> **Byddwch angen**
> 4 pwys o rhiwbob wedi ei dorri'n ddarnau bach.
> 4 pwys o siwgwr
> Sudd a chroen 2 lemon wedi eu gratio.
> Sudd a chroen 2 oren wedi eu gratio.
> 2 owns gwraidd sinsir. (tarwch â phin rholio a'i glymu mewn darn o ddefnydd)
> 2 owns preserved stem ginger wedi ei dorri'n fân
> Os nad oes gennych y ddau gynhwysyn ola, peidiwch â mynd i'r siop i ddal y feirws, defnyddiwch sinsir wedi ei falu (ground ginger, tua 3 llond llwy de.)
> Rhaid addasu'n risetiau i wneud defnydd o'r cynhwysion sydd yn y cypyrddau'r dyddiau yma!
> **Dull**
> Rhowch y rhiwbob mewn bowlen, wedyn y siwgwr, croen a sudd y lemonau a'r orenau. Rhowch orchudd drosto a'i adael dros nos.
> Trannoeth, rhowch yr uchod mewn sosban fawr, trowch dros wres nes fod y siwgwr wedi toddi. Ychwanegwch y sinsir sydd yn y defnydd.
> Trowch y gwres fyny a berwch yn gyflym am tua 20 munud neu fwy. Testiwch am 'set' drwy roi ychydig ar blat oer, ei adael i oeri'n hollol, wedyn tynnu eich bys ar hyd-ddo. Dylai grebachu gan ddangos ei fod yn barod i'w roi mewn jariau.
> Os nad yw'n barod, dylid ei ddychwelyd am rai munudau pellach.
> Ychwanegwch y sinsir sydd wedi ei gristaleiddio.
> Thywalltwch i jairiau glân, cynnes.
> Mae'r jam yma'n reit anodd i'w gael i setio gan fod rhiwbob yn isel mewn pectin.
> Mae na ffordd o gywiro hyn os hoffwch. Mae na ffrwythau sy'n uchel mewn pectin ,fel afalau, eirin Mair neu gwrens coch a gellir defnyddio rhain neu eu sudd i helpu i gael 'set'.
> Mae'r jam yma'n hyfryd fel saws gyda hufen ia hefyd.
> Cofiwch am eich cymdogion, rwy'n siwr y byddent yn gwerthfawrogi anrheg bach y dyddiau yma!

************************************************************************

## APÊL

I nodi diwedd ysgolion cynradd ac uwchradd Llanfyllin fel dwy ysgol ar wahân y mae Pauline Page-Jones a Richard Kretchmer yn ysgrifennu llyfr i gofnodi holl lwyddiannau a chyflawniadau disgyblion trwy gydol oes yr ysgolion.


O fis Medi eleni fe fydd addysg yn Llanfyllin ar gyfer disgyblion 5-18 oed yn cael ei weinyddu fel un ysgol ac enw'r ysgol fydd Ysgol Llanfyllin.

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth am unrhyw gyflawniadau gwych neu straeon diddorol, yn ymwneud â chyn-ddisgyblion neu ddisgyblion presennol y naill ysgol neu'r llall, plis cysylltwch â ni. Rydyn ni hefyd yn edrych am luniau sydd yn gorfod cael enwau a dyddiadau arnyn nhw i ni eu hystyried. Hefyd, fedrwn ni ddim gwarantu y byddwn yn defnyddio'r holl wybodaeth a dderbyniwn.
Anfonwch eich cyfraniadau i Pauline Page-Jones, Pendyffryn, Llanfyllin, SY22 5LA (pauline@page-jones.com) Ffôn (01691) 648227 neu 07989766220.
Peidiwch â chysylltu efo'r ysgol yn uniongyrchol.

## SUDOCW

Dyma Sudocw i'ch diddanu yn y dyddiau tywyll sydd ohoni y dyddiau yma. Anfonwch eich atebion i Carys Evans, Cefn y Braich, Llansilin Croesoswallt, ST10 7QQ erbyn Dydd Gwener, Ebrill 17eg ac fe fydd gwobr i'r un cyntaf a ddaw allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | | | | 6 | | | |
| 5 | 3 | | | | | | | |
| | | | | | | 7 | 8 | |
| 3 | 5 | | | | | | | |
| | 7 | | 8 | | | | 5 | |
| | | | 9 | | | 8 | 1 | |
| | | 9 | | | | | | 4 |
| | | | | 3 | | | | 2 |
| | | | | 5 | 4 | | | |



# Penybontfawr
## Carys Jones

**YSGOL PENNANT**
**Gwaith y Siarter iaith**
Buom yn dathlu dydd Miwsig Cymru ar Chwefror y 7fed drwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg yn ystod y dydd a chyda disgo egnïol ar ddiwedd y prynhawn. Diolch i'r Criw Cymraeg am drefnu. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Mr Bryn Davies, y llywodraethwr dynodedig ar gyfer goruchwylio gweithgareddau y Siarter Gymraeg yn yr Ysgol. Bydd yn cydweithio efo'r plant i drefnu ymweliad gan Gwilym Bowen Rhys yn Mis Medi. Mae Gwilym ac hefyd y band Bwncath (gydag Elidyr Glyn) yn canu yng Ngŵyl Fach Nansi ym Mhenybontfawr ar y 25ain o Fedi fel rhan o'r paratoadau sy'n arwain at yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llanfyllin nes ymlaen yn y flwyddyn. Ar ddydd Sadwrn y 26ain o Fedi, y bwriad ar hyn o bryd ydy trefnu taith gerdded o Benybontfawr i Bennant Melangell ac yno canu Cân Melangell (fel sydd ar CD Holl Anifeiliaid y Goedwig gan Plu) gyda Gwilym Bowen Rhys. Am gyffrous! Rhywbeth i edrych ymlaen ato!


*Y Llywodraethwr Bryn Davies yn tarfod gyda'r disgyblion*

**Masnach Deg**
Braf oedd cael ymweld ag Ysgol Banw ym mis Chwefror i glywed ffermwraig o Gymru ac hefyd o Affrica yn siarad am eu gwaith. Roedd y disgyblion wedi mwynhau yn fawr ac wedi dysgu llawer am Fasnach Deg. Diolch i Ffion Dolwar Fach ac i Betsan a disgyblion Ysgol Banw am eu croeso.

**Diddanu Sefydliad y Merched**
Ddiwedd Chwefror buom yn diddanu Sefydliad y Merched ym Mhenybontfawr. Cawsom groeso bendigedig er nad oedd llawer o sglein ar ein eitemau. Buom yn canu, dawnsio ac yn llefaru. Diolch i Sefydliad y Merched am y cyfle i gael perfformio o flaen cynulleidfa ac hefyd am eu rhôdd. Prin fydd y cyfleoedd yma am rai misoedd mae'n siŵr.

**Eisteddfod yr Urdd**
Bu'r plant wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a llongyfarchiadau iddyn nhw am ddysgu twr o ganeuon a cherddi a oedd wir yn werth eu dysgu.

Llongyfarchiadau mawr i barti Plant blwyddyn 3 a 4 a enillodd yn yr Eisteddfod gylch yn Llanfyllin am ddawnsio gwerin ac hefyd i'r plant bach a gafodd drydydd yn yr un gystadleuaeth. Braf oedd gweld nifer fawr o'r disgyblion yn paratoi darnau o waith ar gyfer y cystadleuthau celf a chrefft.

**Nofio**
Llongyfarchiadau i'n nofwyr a fu'n cystadlu yn y gala yn ddiweddar. Pe bai yna rownd nesaf, byddai Eleri, Tilly, Nansi Medi, Rowan, Cari Marissa, Dylan, Nansi Lili, Cari Libby, Mari, Eos, Elliot a Libby wedi mynd ymlaen.


*Y nofwyr*

Diolch yn fawr i Kirsty Benbow a ddaeth atom i roi cyfres o wersi hoci i'r plant hynaf. Roedden nhw wrth eu boddau yn ymarfer eu sgiliau ac yn datblygu eu gallu i chwarae'r gêm.
*Adroddiad Margaret Davies*

## Dymunwn i bawb gadw yn iach drwy'r cyfnod anodd yma ac i ofalu am y naill a'r llall.

**Sefydliad y Merched**
I ddathlu Dydd ein Nawddsant eleni fe ddaeth plant ac Athrawon Ysgol Pennant i'n diddanu. Yr oedd hon yn noson i unrhywun daro i mewn, a chafwyd cynulleidfa dda iawn. Y mae cael cwmpeini y plant bob amser yn dod â llawenydd i bawb. Yr oedd yr athrawon wedi paratoi llawer o eitemau amrywiol ar ein cyfer, a byddai'r plant wedi perffomio'r eitemau hyn yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar Fawrth 14eg yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin.
Cafwyd lluniaeth i bawb ar y diwedd,a rhoddwyd y diolch gan Eleri. Yn ystod y noson fe groesawodd Eleri dair aelod newydd i'n plith sef Jenny Fell, Janet King a Jacquie Barnes. Y mae pawb mor hapus i weld bod rhai yn dal i gefnogi'r mudiad ardderchog hyn. Roedd yn fwriad gan amryw ohonom i roi amser i gasglu sbwriel o amgylch y pentref ar 13eg o Ebrill, bydd ardaloedd eraill yn gwneud ymdrech hefyd i gadw eu broydd yn ddestlus. Daeth pedair o aelodau â gosodiadau o flodau'r Gwanwyn i'r gystadleuaeth. Maggie a enillodd, gyda Eleri, Bethan a Lorraine yn agos iawn. Yr ydym oll yn anfon ein dymuniadau gorau i Peter, sef gŵr Johanne
ein hysgrifenyddes nad yw wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Dioch yn fawr i bawb am roi inni noson sbesial iawn.

*Adroddiad Lynda Thomas*

**Ar wahân, gyda'n gilydd**

# Rhiwlas

Gwenan Griffiths

Llongyfarchiadau i Cadi Glwys, Nant Hirwen, Moelfre ar ennill TlwsCerddor Ifanc Cwlwm Celtaidd yn ddiweddar. Roedd Cadi yn yr ŵyl yn perfformio gyda Robin Huw Bowen a Tŷ Teires. Gŵyl Celtaidd yw hon sy'n cael ei chynnal ym Mhorthcawl yn mis Mawrth bob blwyddyn, gyda grwpiau offerynnol a grwpiau dawns o'r gwledydd Celtaidd. Eleni, roedd cynrychiolaeth gref o Gymru, Ynys Manaw a'r Alban. Mae Cadi wedi ennill darn hyfryd o grochenwaith Ewenni, ac fel rhan o'r wobr, bydd hi'n cael slot i berfformio ar y prif lwyfan yn yr ŵyl y flwyddyn nesaf.



*Yn y llun mae 4 beirniaid sy'n cynrychioli'r gwledydd Celtaidd, a rhai o'r cystadleuwyr eraill.*

**LLYFRAU! LLYFRAU! LLYFRAU! LLYFRAU! LLYFRAU!**

Mae Cylch Ti a Fi Croesoswallt yn cyfarfod yn Festri Capel Horeb yn y dref bob bore dydd Iau yn ystod y tymor. Bydd plant yn amrywio o fabanod newydd-anedig i blant ar fin dechrau'r ysgol yn mwynhau gweithgareddau i hybu eu datblygiad. Mae hefyd yn gyfle gwych i rieni a gofalwyr gymdeithasu a rhannu profiadau mewn awyrgylch Gymreig anffurfiol. Dyma un o dim ond tri lleoliad y tu allan i Gymru lle ceir Cylch Ti a Fi, y ddau lleoliad arall yw Llundain a Bryste. Daw'r plant o ardal eang gan gynnwys y Waun, Ellesmere, Dyffryn Tanat a thref Croesoswallt ei hun.

Penderfynodd Merched y Wawr Rhiwlas, gefnogi'r cylch hwn trwy noddi prynu llyfrau Cymraeg a dwyieithog newydd i'r plant eu mwynhau. Cafodd yr amrywiaeth eang o lyfrau lliwgar a diddorol eu hawgrymu gan y rheini a gofalwyr – roedd deinosoriaid yn ddewis poblogaidd!




Darparodd Siop Cwlwm y llyfrau, sef siop Gymraeg Croesoswallt. Mae Siop Cwlwm yn falch i gynnig gostyngiad ar bris deunyddiau addysgol a llyfrau Cymraeg/dwyieithog sy'n cael eu harchebu i ysgolion a chylchoedd.
Mae Cylch Ti a Fi Croesoswallt yn ddiolchgar iawn i aelodau Merched y Wawr Rhiwlas am eu rhodd hael, ac mae'r plant eisoes yn mwynhau eu llyfrau newydd!



*Yn y llun (o'r chwith i'r dde) mae Lowri Roberts o Siop Cwlwm yn gwylio Elin Machin o Gylch Ti a Fi Croesoswallt, â'i merch Maisie, yn derbyn un o'r llyfrau Cymraeg newydd oddi wrth Iola Evans o gangen Merched y Wawr Rhiwlas.*

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, ewch i'n tudalen Facebook https://www.facebook.com/tiaficroesoswallt neu ffoniwch 07814 033759.





*Y plant yn mwynhau'r llyfrau*

# Yr Ysgol Uwchradd

**Meinir Lewis Jones**

**<u>Prosiect E-sgol</u>**

Mae menter newydd i ddatblygu e-ddysgu yn ysgolion uwchradd Powys wedi cael ei lansio gan Weinidog Addysg Cymru. Mae prosiect E-sgol yn ceisio ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion ôl-16 astudio cyrsiau na fyddai ar gael iddynt fel arall.




***Y Gweinidog Addysg yn lansio menter E-sgol ym Mhowys***

Mae Cyngor Sir Powys wedi ymuno â phrosiect Llywodraeth Cymru, sydd wedi gweld cyfleusterau cyswllt fideo yn cael eu gosod ar bob campws uwchradd yn y sir.

Roedd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin ddydd iau, 5 Mawrth i lansio prosiect E-sgol yn swyddogol ym Mhowys, gan weld sut mae disgyblion ôl-16 yn defnyddio'r dechnoleg yn llwyddiannus, er enghraifft ar gyfer cael gwersi Mathemateg Pellach.

Mae'r gwersi'n cael eu cynnal trwy gyswllt fideo byw gan yr athro, gyda'r disgyblion yn aros yn yr ysgol. Mae'r gwersi 'byw' hyn gydag athro profiadol a chymwys, sydd wedi'i leoli mewn ysgol arall.



*Kirsty Williams yn trafod gyda rhai o'r atharwon*

Gall yr athrawon gynnig adborth i'r disgyblion ar y pryd, a gall y disgyblion gyfrannu ar lafar yn ystod y wers, yn union fel pe bai'r athro yn y dosbarth.Fis diwethaf, defnyddiodd y disgyblion offer E-sgol yr ysgol i roi eu barn i swyddogion addysg y cyngor ar y weledigaeth arfaethedig ar gyfer addysg ym Mhowys.

Dywedodd y Cyng. Phyl Davies, Aelod Cabinet ar faterion Addysg: "Mae cynnig cyfleoedd addysg o ansawdd uchel i'n holl ddysgwyr yn rhan o Weledigaeth 2025 a'r ffordd i gyflawni hyn yw trwy ddefnyddio technoleg.

"Mae angen wynebu heriau bod yn sir wledig fawr a defnyddio technoleg i wella mynediad i'n holl ddysgwyr.

"Bydd y prosiect E-sgol yn cysylltu disgyblion ac athrawon ledled Powys ac yn sicrhau fod disgyblion yn cael cynnig ystod ehangach o bynciau, a derbyn y profiad dysgu gorau."



*Trafod yr e-sgol*

Dywedodd Dr Lewis Pryce, athro mathemateg yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin: "Unwaith y gwnaethon ni ddechrau ar yr addysgu, mi ddiflannodd unrhyw bryderon a oedd gen i am E-sgol. Mae'r broses o addysgu sawl ysgol wedi bod yn llyfn iawn, ac mae'r disgyblion wedi mwynhau'r gwersi. Maen nhw wedi bod yn bleser eu haddysgu. Erbyn hyn, dw i ddim yn gweld unrhyw wahaniaeth rhwng fy ngwersi fideo a'm gwersi traddodiadol.

"Mae'n wych hefyd gallu addysgu Mathemateg Bellach ar lefel Safon Uwch. Heb y prosiect hwn, mi fyddai hynny wedi bod yn annhebygol."

Dywedodd Kirsty Williams: "Dw i'n teimlo'n gryf y dylai pob disgybl ysgol yng Nghymru gael yr un cyfleoedd astudio, p'un a ydyn nhw yng nghanol dinas neu yn y wlad.

"Mae E-sgol yn defnyddio technoleg mewn ffordd arloesol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fyfyrwyr mewn ardaloedd gwledig drwy gynyddu'r pynciau sydd ar gael iddyn nhw ac ehangu eu hopsiynau o ran gyrfa ar ôl gadael yr ysgol.

"Mae cymryd camau i gefnogi ysgolion gwledig wedi bod yn un o 'mhrif flaenoriaethau yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Yn ogystal â'n buddsoddiad drwy ein rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, mae E-sgol yn enghraifft arall o sut rydyn ni'n sicrhau tegwch i ddisgyblion, lle bynnag y maen nhw'n byw."



# Eisteddfod yr Ysgol Uwchradd

Unwaith eto eleni, cafwyd chwip o Eisteddfod Ysgol a gynhaliwyd ar ddydd Gwener, 6ed o Fawrth. Cafwyd gwledd o gystadlu gan ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8, ac nid gwaith hawdd oedd gwaith y beirniaid - Mrs Eleri Llwyd Jones a Mrs Julie Davies. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd y seremoni gadeirio. Testun y gadair eleni oedd Newid neu Diwedd Cyfnod. Beirniad y gadair Gymraeg oedd Mrs Lyn Ellis a beirniad y gadair Saesneg oedd Mrs Annwen Watkins. Tomos Efan Jones ddaeth i'r brig ar gyfer y Gadair Gymraeg wedi iddo gyfansoddi cerdd ar y testun 'Diwedd Cyfnod' a Dylan Marsden-Mosebury ddaeth i'r brig ar gyfer y Gadair Saesneg wedi iddo ysgrifennu stori fer.



*Y llenorion buddugol*

Bob blwyddyn, gwobrwyir Cwpan Coffa Sion Jones i'r eitem orau yn yr eisteddfod ac eleni Mared Price gipiodd y wobr am ei hunawd. Am y tro cyntaf eleni hefyd, cyflwynwyd tlws Er cof am Trefor Cynllaith i unai'r unawd offerynnol orau neu'r unawd pop gorau. Y tro hwn, Tal Davies ar y drymiau gipiodd y wobr. Braf oedd gweld ein prif ddisgyblion, James Burgess ac Angharad Jones yn arwain am ryw faint o'r diwrnod a chroesawyd un o'n cyn-ddisgyblion, Lloyd Davies yn ôl am y diwrnod i helpu.




*Cân y Cadeirio*

Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb ddaeth i'r brig ac yn arbennig i ddosbarth cofrestru 7SE a'u capteiniaid Catherine Digwood ac Ella Evans am gipio'r cwpan am y marciau uchaf. Diolch yn arbennig i Ella Evans am ganu i gyfarch y prif-feirdd.



*Enillydd Cwpan Coffa Sion Jonesac* enillyddTarian Goffa Trefor Cynllaith



## Eisteddfod yr Ysgol Uwchradd (Parhad)










2020













## ***MWY FYTH O'R YSGOL UWCHRADD***

***Merched wedi bod efo Gloria yn diddanu noson Gwyl Ddewi yn swydd Gaer.*** Bu pedair o ddisgyblion canu Gloria Ellis yn diddanu i ddathliadau Gwyl Ddewi yn Hoylake, Swydd Gaer. Rhaid eu bod wedi plesio y gynulleidfa gan eu bod wedi cael gwahoddiad i ddychwelyd yno. Yn y llyn gwelir y bedair sef Annie Brown, Indie Wilkinson, Angharad Jones ac Ella Evans.



## Llenyddiaeth yr Eisteddfod

### Cyntaf am y Gadair Gymraeg – Tomos Jones

***Diwedd cyfnod Taid***

Hapusrwydd oedd gan Taid
Hoffi pawb oedd o'i flaen
Cariadus oedd taid, dewr iawn
Hapus o hyd yn edrych ar ôl pawb.

Cael 4 bachgen caredig a chlên
Caru ffarmio pob dydd ar ôl ysgol
Dwi'n cofio mynd i Dynrwtra
Gweld taid yn yr un set.

Yn fy nilyn i rownd y gegin,
Llawer o chwerthin, methu gorffen y gêm,
Un oedd yn hapus o hyd
Roedd Taid yn berson clên.

Twll wedi cael ei adael yn y gadair
Dim llawer o sŵn yn y tŷ
Cofio fo am byth
Byth yn anghofio.

Ond yn y diwedd mi gollodd ei fywyd
Wedi ei fywyd hyfryd
Nain wedi cael llawer o amynedd
Ond dyna ni y diwedd.

### ***Emmy Nazar, 2il am y Gadair Gymraeg***

***Newid***

Mynd yn hŷn bob dydd.
Rwy'n sgrechian
Crio,
Llefain
Ymhob man,
Ond dydi fy rhieni ddim yn meindio.

Mynd yn hŷn bob dydd.
Rŵan rwy'n dair,
Rwy'n chwerthin,
Joio,
A chael llawer o hwyl,
tra'n rhedeg trwy'r glaswellt hir.

Mynd yn hŷn bob dydd.
Rŵan dwi'n 16
Dwi yn yr ysgol fawr,
Rwy'n hapus
Ond ddim yn yr ysgol 'ma
Does gena i ddim ffrindiau,
A 'dw i eisiau gweld y byd i gyd!

Mynd yn hŷn bob dydd.
Rŵan dwi'n 21,
Ac yn mynd i'r coleg,
Weithiau dwi'n nerfus,
Ond ddim gyda fy ffrindiau newydd i,
Rwy'n methu adre,
Mae'r tŷ yn aros amdana i.

Mynd yn hŷn bob dydd.
Rwy'n canu, canu
Mewn cystadlaethau MAWR!
'Dw i'n sgwennu, sgwennu
I greu caneuon newydd,
Rŵan dwi'n 46.

Mynd yn hŷn bob dydd.
'Dw i di blino 'wan,
Mae fy mywyd yn neis,
'Dw i angen sbectol a ffôn
Ac rwy'n cofio am y pethau da yn fy mywyd,
Rŵan 'dw i'n 87…

Mynd yn hŷn bob dydd.
Rwy'n gorwedd,
Yn dawel,
Yn llonydd,
Tra 'dw i'n gwylio fy nheulu am y tro olaf,
A 'dw i'n dweud y geiriau ddywedwyd wrtha i,

"Dw i'n mynd yn hŷn bob dydd…"

# Llangynog

Alan Young ac Enid Jones

**Dydd Gŵyl Dewi**

Dathlwyd yr ŵyl eleni ar noson stormus iawn sef Chwefror 29ain. Nifer fechan oedd wedi troi i fewn, ond mwynhawyd pryd o gawl, gyda chacen gri a phaned wedi ei baratoi gan aelodau pwyllgor y Neuadd Goffa.

Croesawyd pawb gan Geraint Evans. Yn dilyn y swper cafwyd adloniant gan 'Tonig' (dwy ferch o ardal Cerrigydrudion) a phawb wedi eu mwynhau.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Anita a Maelor, Blaenrhiwarth ar ddod yn daid a nain yn ddiweddar, eu mab Wyn a'i bartner Sian wedi cael bachgen bach Steffan Lewis. Pob lwc iddynt fel teulu.

**Ysbyty**

Dymuniadau gorau i Sheila Broome sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Stoke yn ddiweddar, a gwellhad buan iddi.

Hefyd mae Vera Symonds, Ivy Cottage wedi bod am **gyfnod yn Ysbyty Trallwm. Dymuniadau gorau iddi hithau.**

**Pob lwc**

Deallwn fod Issy Hoskins, Tanyfoel yn cymeryd drosodd busnes y cigydd David Keegan yn Llanrhaeadr. Mae Issy wedi byw yn y pentref ers ambell flwyddyn, a'i gŵr Danny yn gipar ar Stad Llechwedd y Garth. Pob lwc iddi yn ei menter newydd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Dilwyn Morris (yn enedigol o Langynog) ar farwolaeth ei wraig Donna yn ddiweddar, heb anghofio Dewi a John y ddau fab a'u teuluoedd.
(Enid Jones)

**Ambiwlans Awyr Ardderchog Cymru**

Daeth aelodau Sefydliad y Merched Llangynog ynghyd ar noson wlyb a gwyntog ond roedd yn gynnes yn y Neuadd Goffa. Croesawyd aelodau newydd cyn rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddod.

Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol a manwl gan Andrew Hall o Ambiwlans Awyr Cymru. Siaradodd am waith y peilotiaid, y meddygon, y parafeddygon, y technegwyr, y rhai sy'n codi arian, y peirianwyr a'r gwirfoddolwyr. Daeth brwdfrydedd a gwybodaeth Andrew â'r pwnc yn fyw. Roedd yn hollol amlwg bod rhaid i ni i gyd helpu i godi'r swm anferthol o arian sydd ei angen i alluogi'r hofrenyddion a'r staff barhau i gynnig gwasanaeth mor amhrisadwy.

**Dangos y Cariad gyda Chalon Werdd**

Mae Sefydliad y Merched Llangynog wrthi'n 'Dangos y Cariad' trwy ymuno â chynllun Llysgennad Newid Hinsawdd Sefydliad y Merched, gan benodi Maureen Clark fel eu llysgennad. Bu Val Atherton yn cynorthwyo trwy wneud amrywiaeth o gacennau 'calon werdd' blasus i ddwyn sylw at hyn.

**Cyfarfod Mis Mawrth** Ar noson wyllt, gwlyb a gwyntog daeth criw ynghyd i wrando ar Dave Moore, crefftwr medrus a llythrennwr yn sôn am gefndir a datblygiadau diweddaraf Celf Cychod y Gamlas. Gan ddefnyddio paent gwyrdd, glas, coch a melyn llachar, eglurodd a dangosodd Dave y broses baentio draddodiadol a ddefnyddir i greu'r celf addurniedig a welir drwy holl rwydwaith y gamlas. Roedd yr aelodau wrth eu boddau wrth i Dave greu llun llawn bywyd o rosyn. Roedd ei sgwrs fywiog hefyd yn llawn manylion a hanesion difyr wedi galluogi'r aelodau i ddeall cymuned y cwch culion, sy'n cymaint rhan o'n treftadaeth yn well. Cafwyd swper blasus i orffen.





Dyma Crefftau Llangynog, yn llawn balchder, yn cyflwyno cwilt Cymunedol i'w noddwyr, sef Pwyllgor Neuadd Goffa Llangynog. Lliwiau godidog y dyffryn yn y gwanwyn wnaeth ysbrydoli eu gwaith ac, os edrychwch yn ofalus, fe welwch gip ar y dyffryn a'r afon, y creigiau, coed, y bywyd gwyllt a gwahanol redynau. Gwelir Sefydliad y Merched yno mewn gwisgoedd pantomeim, a phaneidiau o de mewn llestri cain sy'n dathlu ein hysbryd cymunedol. Cynhelir digwyddiadau lu yn Neuadd Goffa Llangynog ac mae'r cwilt yn dangos y cynhesrwydd a'r cyfeillgarwch a geir yma.

FFYDD, GOBAITH, CARIAD